

Galluogrwydd Ariannol yng Nghymru 2015

**Canfyddiadau cychwynnol
Arolwg Galluogrwydd Ariannol 2015**

Cydnabod

Hoffai'r **Gwasanaeth Cynggori Ariannol** gydnabod a diolch i bob un o'r nifer fawr o sefydliadau ac unigolion sydd wedicyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth hon. Diolch yn arbennig i Gfk a fu yng ngofal y prif arolwg, TNS-BMRB fu'n gyfrifol am yr ymchwil ansoddol cychwynnol, DVL Smith fu'n cynnal y profi gwybyddol ac You Gov a fu'n treialu rhai o'r cwestiynau meintiol, hefyd i aelodau grŵp Ymchwil a Gwerthusiad y **Gwasanaeth Cynggori Ariannol** am eu cyngor defnyddiol.

Cynnwys

Crynodeb	5
Y cefndir, y fethodoleg a'r amcanion	6
Y cefndir	6
Y fethodoleg	6
Y model galluogrwydd ariannol	7
Rôl yr arolwg	9
Sgoriau cryno i'w mapio a'u diagnosio	10
Grwpio a gosod trothwyon	10
Sgoriau Ymddygiad a Sgoriau Ffactorau Galluogrwydd Ariannol	12
Profi a gwella'n hymagwedd ddadansoddol	13
Mapio ymddygiad	14
'Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'	14
Pa ymddygiadau sy'n creu rheolaeth dda ar arian o ddydd i ddydd?	14
Un mesuriad cyffredinol o reolaeth ariannol o ddydd i ddydd	15
Pwy sydd ddim yn rheoli arian cystal o ddydd i ddydd?	15
'Paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'	17
Pa ymddygiadau sy'n creu pau ymddygiad 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'?	17
Pwy sydd ddim yn paratoi cystal ar gyfer digwyddiadau bywyd?	18
Delio ag anawsterau ariannol	19
Pa ymddygiadau sy'n creu pau ymddygiad 'delio ag anawsterau ariannol'?	19
Un mesuriad ar gyfer anawsterau ariannol	20
Gofyn am gyngor di-dâl ar ddyledion	21
Map o'r heriau	21
Diagnosis – beth sy'n atal a beth sy'n galluogi?	22
Ffactorau Galluogrwydd Ariannol	22
Sgiliau a gwybodaeth	22
Ydy darllen cyfriflen banc yn dal yn bwysig?	23
Pwy sydd ddim yn sgorio cystal ar 'sgiliau a gwybodaeth'?	24
Agweddau a chymhellion	24
Agweddau at y dyfodol	24
Hyder a hunan-effeithiolrwydd	25
Cymryd cyfrifoldeb	26
Pwy sy'n well neu'n waeth o ran cymryd cyfrifoldeb?	27

Hwylustod a hygyrchedd	28
Pethau sy'n atal ac sy'n galluogi ymddygiadau allweddol	29
Pa mor bwysig yw incwm?	29
Ffocws ar gynilion	31
Cynilo'n gyson	31
Beth arall sy'n bwysig heblaw incwm?	32
Ffactorau Galluogrwydd Ariannol fel ffactorau sy'n atal/galluogi cynilo cyson	32
Cynilion o'u cymharu ag incwm	34
A yw cynilion mwy yn cael eu hesbonio gan y ffactorau a esboniodd gynilo'n fwy cyson?	35
Ffocws ar y dyfodol a gosod nodau:	37
Cynilo ar gyfer nod o'i gyferbynnu â chynilo ar gyfer diwrnod glawog:	37
Ffocws ar fenthycia a dyledion	37
Ffocws ar reoli arian	39
Grwpiau targed penodol	40
Oedolion ifanc	40
Y goblygiadau ar gyfer ymyriadau ymysg oedolion ifanc	41
Pobl hŷn sydd wedi ymddeol	41
Y goblygiadau ar gyfer pobl hŷn sydd wedi ymddeol	42
Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith	42
Y goblygiadau ar gyfer ymyriadau	43
Tenantiaid tai cymdeithasol a rhentwyr preifat	43
Casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer ymyriadau	45
Atodiad A –	
Canlyniadau tabledig grwpiau targed penodol	46
Oedolion ifanc	46
Pobl hŷn sydd wedi ymddeol	48
Deiliadaeth tai	50
Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith	52

Crynodeb

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys y nifer uchaf o gyfweiliadau yng Nghymru sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn mewn ymchwil ynglŷn â galluogrwydd ariannol. Fel ei ragflaenwyr, mae'n gweld bod llawer o waith i'w wneud er mwyn gwella galluogrwydd ariannol. Mae'r mwyafrif o bobl yn rheoli eu harian o ddydd i ddydd. Ond mae llawer llai yn paratoi'n ariannol ar gyfer digwyddiadau bywyd, megis colli incwm, profedigaeth neu ymddeol.

Nid yw rhyw bedwar ym mhob deg o oedolion yng Nghymru yn rheoli eu harian o ddydd i ddydd gystal ag y gallent. Os nad yw'r hanfodion ar gael, mae paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli, a delio ag ergydion posibl i'ch incwm, gymaint â hynny'n fwy anodd. Yn benodol, os nad yw pobl yn cadw golwg ar bethau o ddydd i ddydd mae'n llawer mwy anodd meddwl ymlaen.

Drwyddi draw, dim ond chwarter o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru sydd â chynilion sy'n cyfateb i dri mis neu ragor o incwm a dim ond ychydig dros hanner y teuluoedd sydd ag yswiriant bywyd.

Mae angen o hyd i sgiliau a gwybodaeth defnyddwyr gael eu gwella, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod y rhain wedi dirywio yn ystod y degawd diwethaf.

Mae hyder wrth reoli arian a dewis cynhyrchion yn rhwystro – yn enwedig ymysg y grwpiau isaf eu hincwm, y rhai sy'n dibynnu'n fwy ar fudd-daliadau a hefyd 'oedolion ifanc'. Mae angen gweithio i ddatblygu 'agweddau a chymhellion' mwy cadarnhaol, gan fod mwy na hanner yr holl oedolion yn canolbwyntio'n fwy ar anghenion a dymuniadau'r presennol, ar draul darparu ar gyfer y dyfodol.

A bwrw bod popeth arall yn gyfartal, bydd y sawl sydd ag incwm uwch, gwell cyrhaeddiad addysgol a rheng gymdeithasol uwch yn gwneud yn well. Yn achos incwm, mae hyn yn arbennig o wir o ran 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' a 'sgiliau a gwybodaeth'. Er hynny, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth o ran galluogrwydd ariannol sy'n cael ei sbarduno gan gyfuniad o adnoddau, sgiliau a chymhellion.

Y goblygiadau

Bydd angen i ymyriadau llwyddiannus gael eu targedu'n benodol ar ymddygiadau penodol. Yn benodol mae angen rhagor o waith i ganfod pa mor ymarferol yw ymyriadau sydd wedi'u targedu ac sydd wedi'u cynllunio i hybu cynilion drwy wneud y canlynol:

- annog y rhai nad ydynt yn cynilo i gynilo drwy osod nodau penodol; ac
- annog cynilwyr presennol sy'n anelu at nod i gynyddu eu cynilion neu i barhau ar ôl cyrraedd eu nod er mwyn cronni cynilion ar gyfer argyfwng.

Mae yna angen ehangach hefyd i hybu gwell paratoadau ar gyfer digwyddiadau bywyd ymysg y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Fe allai fod yn fanteisiol dadansoddi hyn yn oedolion ifanc, pobl o oedran gweithio a phobl hŷn sydd wedi ymddeol. Ond gallai hyd yn oed hynny fod yn rhy fras ac, o gofio mor bwysig yw cyfansoddiad teuluoedd, efallai y byddai'n fanteisiol pe baem yn deall ac yn targedu teuluoedd incwm canolog yn y boblogaeth o oedran gweithio fel grŵp ar wahân.

Mae'r arolwg yn amlygu materion penodol ymysg grwpiau fel:

- oedolion ifanc;
- oedolion oedran gweithio
- derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol, yn benodol pobl ddi-waith;
- pobl hŷn 75+ sydd wedi ymddeol;
- tenantiaid tai cymdeithasol; a
- thenantiaid tai preifat.

Y camau nesaf

Golwg gychwynnol ar ganfyddiadau Arolwg 2015 yw'r canlyniadau a geir yn yr adroddiad hwn. Rhwng nawr a'r arolwg nesaf (sydd wedi'i amserlennu ar gyfer 2017) byddwn yn gwneud ac yn cyhoeddi gwaith dadansoddi ychwanegol, manylach. Bydd hyn yn cynnwys ein hymagwedd arfaethedig at olrhain cynnydd cyffredinol Arolwg Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig.

Y cefndir, y fethodoleg a'r amcanion

Y cefndir

Y Gwasanaeth Cyngchori Ariannol (MAS) yw corff statudol y Deyrnas Unedig ar gyfer gwella dealltwriaeth a gwybodaeth pobl o faterion ariannol a'u helpi i reoli eu harian yn well. Rydym yn arwain datblygiadau Strategaeth Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig, a fydd yn bwydo ac yn cydlynu gweithgareddau'r nifer fawr o sefydliadau sy'n rhannu diddordeb mewn gwella llesiant ariannol pobl. Mae hwn yn brosiect unigryw ac arwyddocaol sy'n gofyn am gyfraniadau egniol gan bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn sicrhau poblogaeth sy'n fwy galluogrwyddog yn ariannol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r Arolwg Galluogrwydd Ariannol yn rhan allweddol o'r gronfa dystiolaeth sy'n sail ar gyfer datblygu'r strategaethau galluogrwydd ariannol yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r ymchwil yn mesur hyd a lled ymddygiad ariannol-alluog ymysg y cyhoedd, gan amlygu grwpiau penodol yn y boblogaeth sy'n sgorio'n is o ran ymddygiadau neu Ffactorau Galluogrwydd Ariannol. Mae'n ystyried hefyd i ba raddau y gall sgiliau, gwybodaeth, meddylfryd ('agweddau a chymhellion'), cysylltiadau ('hwylustod a hygyrchedd'), a dylanwadau eraill atal neu alluogi ymddygiad ariannol-alluog.

Mae Arolwg 2015 yn cynnwys y nifer uchaf o gyfweiliadau yng Nghymru sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn mewn ymchwil ynglŷn â galluogrwydd ariannol.¹

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar **Arolwg Galluogrwydd Ariannol 2015**. Pan fo'n briodol mae'n cymharu ag arolygon eraill Galluogrwydd Ariannol, gan gynnwys:

- Orlheiniwr Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig yn 2014;²
- Orlheiniwr Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig yn 2013;³
- Astudiaeth beilot Llythrennedd ac Addysg Ariannol yr OECD yn 2010;⁴ ac
- Arolwg Gwaelodlin Galluogrwydd Ariannol yn y Deyrnas Unedig yn 2005.⁵

Pan fo modd, ffigurau Cymru sydd wedi'u cyflwyno. Pan nad yw hyn yn bosibl, ffigurau'r Deyrnas Unedig sydd wedi'u defnyddio.

Y fethodoleg

Mae'r Arolwg Galluogrwydd Ariannol yn arolwg sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol ymysg oedolion 18+ oed yn byw yn y Deyrnas Unedig.⁶

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar 795 o gyfweiliadau a gynhaliwyd yng Nghymru, sef:

- 170 o gyfweiliadau a gynhaliwyd fel rhan o arolwg craidd y Deyrnas Unedig; a
- 625 o gyfweiliadau cryfhau a gynhaliwyd er mwyn rhoi set ddata ehangach a mwy cadarn ar gyfer dadansoddi galluogrwydd ariannol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau yng Nghymru drwy gymysgedd o gyfweiliadau ar-lein ac wyneb yn wyneb:

- 565 o gyfweiliadau ar-lein (71%) i gynrychioli defnyddwyr trwm y rhyngrwyd; a
- 230 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb (29%) i gynrychioli defnyddwyr ysgafn y rhyngrwyd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio

Cynigiwyd fersiwn Cymraeg o'r arolwg, ac fe'i defnyddiwyd gan 16 o ymatebwyr.

¹ Mae Arolwg 2015 wedi'i seilio ar 795 o gyfweiliadau yng Nghymru, o'u cymharu â 402 yn 2014, 256 yn 2013 a 551 yn Arolwg Gwaelodlin 2005.

² A gynhaliwyd gan Ipsos MORI ar ran y Gwasanaeth Cyngchori Ariannol. Fe'i seiliwyd ar 9,309 o gyfweiliadau a gynhaliwyd ar-lein ac wyneb yn wyneb fesul pedair ton chwarterol rhwng 1 Awst 2013 a 12 Mai 2014. Pwysolwyd y data yn ôl oedran, rhywedd, rhanbarth a defnydd rhyngrwyd i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth 18+ y Deyrnas Unedig.

³ A gynhaliwyd gan Ipsos MORI ar ran y Gwasanaeth Cyngchori Ariannol. Fe'i seiliwyd ar 5,079 o gyfweiliadau a gynhaliwyd ar-lein ac wyneb yn wyneb fesul pedair ton chwarterol rhwng 5 Ebrill a 7 Mai 2013. Pwysolwyd y data yn ôl oedran, rhywedd, rhanbarth a defnydd rhyngrwyd i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth 18+ y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd adroddiad yn <https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/the-financial-capability-of-the-uk>

⁴ http://www.oecd-ilibrary.org/finance-and-investment/measuring-financial-literacy_5k9csfs90fr4-en

⁵ A gynhaliwyd gan BMRB ar ran yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Fe'i seiliwyd ar 5,328 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd rhwng 25 Gorffennaf 2005 a 18 Medi 2005. Pwysolwyd y data ym mhob un o genhedloedd y Deyrnas Unedig yn ôl statws gwaith o fewn rhanbarth, rhyw, oed ac ethnigrwyd i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth 18+ y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd adroddiad yn http://www.fsa.gov.uk/pubs/other/finicap_baseline.pdf

⁶ Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar sail sampl o 3,461 o oedolion a oedd yn gynrychioliadol o'r Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn cynnwys 170 o gyfweiliadau ag oedolion yng Nghymru, a gynrychiolwyd yn ôl eu cyfrannau naturiol. Cynhaliwyd cyfweiliadau cryfhau ychwanegol ym mhob un o'r genhedloedd datganoledig (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) er mwyn sicrhau cronfa gadarn i'w dadansoddi. Yn ychwanegol, cafodd sampl gryfhau o bobl ifanc 18-24 oed ei chynnwys er mwyn eu dadansoddi ar wahân. Cymerodd cyfanswm o 5,603 o ymatebwyr drwy'r Deyrnas Unedig ran yn yr ymchwil hon.

Er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n adlewyrchiad cywir o'r boblogaeth y maent yn ceisio'i chynrychioli, pwysolwyd y data yn ôl amcangyfrifon hysbys o'r boblogaeth. Y newidynnau a ddefnyddiwyd er mwyn pwysoli oedd oedran, rhywedd, rhanbarth (ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan yn unig), statws gwaith, defnyddio'r rhyngrwyd a deiliadaeth tai. Cafodd deiliadaeth tai ei defnyddio yn lle rheng gymdeithasol fel newidyn pwysoli ar ôl i'r data gwreiddiol gael ei holi ac ar ôl cymharu â data'r SYG a ffynonellau data eraill.

Wnaeth rhai ymatebwyr ddim rhoi manylion incwm neu gynilion y teulu neu incwm neu gynilion personol. Cafodd y gwerthoedd a oedd yn eisiau yn achos yr ymatebwyr hyn eu priodoli iddynt ar sail atebion i gwestiynau eraill. Cafodd y model priodoli a ddefnyddiwyd i wneud hyn ei seilio ar fodel a ddefnyddiwyd gan y darparwr arolygon GfK ar Arolwg Ymchwil Ariannol GfK.

Lluniodd yr arolwg fodel hefyd o amcangyfrif o ecwiti aelwydydd ar sail adran fanwl o gwestiynau am forgeisiau perchen-feddianwyr (os oedd ganddynt forgais) a nodweddion yr eiddo.

Datblygwyd holiadur yr arolwg ar sail tonnau blaenorol o ymchwil galluogrwydd ariannol, cymariaethau ag arolygon rhyngwladol megis y rhai sy'n cael eu cynnal gan yr OECD⁷ ac ASIC⁸, ymchwil ansoddol benodol a wnaed ar gyfer yr arolwg hwn⁹, profion gwybyddol ynglŷn â'r cwestiynau a phroffion peilot meintiol ar gyfer rhai o'r cwestiynau.

Gweler yr Adroddiad Technegol i gael manylion llawn y fethodoleg, gan gynnwys dyluniad y sampl, pwysoli, priodoli a phroses datblygu'r holiadur.

Y canfyddiadau sy'n ymwneud â Chymru'n benodol sydd o dan sylw yn yr adroddiad hwn, ond lle bo'n berthnasol ceir cymariaethau â chanfyddiadau'r Deyrnas Unedig gyfan (sydd wedi'u labelu fel Craidd y Deyrnas Unedig drwy'r adroddiad i gyd). Cafodd rhai dadansoddiadau ystadegol eraill eu gwneud ynglŷn â sampl Graidd y Deyrnas Unedig yn unig, ond mae'r rhain hefyd wedi'u dangos yn yr adroddiad hwn gan eu bod yn cynnig golwg ddiddorol ar elfennau sy'n galluogi ac yn atal ymddygiad ariannol-alluog, a chysylltiadau rhwng y rhain.

Y model galluogrwydd ariannol

Mae'r arolwg wedi'i seilio ar fodel o allu ariannol sy'n cynnwys ymddygiadau a'r ffactorau a all alluogi'r ymddygiadau hyn neu eu hatal. Gellir ei ddiffinio fel a ganlyn.

Galluogrwydd ariannol yw galluogrwydd person i reoli arian yn dda, o ddydd i ddydd a thrwy ddigwyddiadau bywyd arwyddocaol, ac i ymdopi â chyfnodau o anhawster ariannol.

Mae'n cael ei sbarduno gan sgiliau, gwybodaeth, agweddau a chymhellion personol, ac mae'n bosibl yn sgil system ariannol gynhwysol ac amgylchedd cymdeithasol cefnogol. Mae galluogrwydd ariannol yn helpu pobl i sicrhau'r llesiant ariannol gorau posibl.¹⁰

Ymddygiadau ariannol-alluog yw'r mathau o ymddygiad a chmau cadarnhaol y mae'r Strategaeth yn anelu at eu hybu a'u mesur. Gellir grwpio'r ymddygiadau hyn yn ôl y rhai y mae eu hangen er mwyn:

- 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd';
- 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'; a
- 'delio ag anawsterau ariannol'.


⁷ Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd – manylion yr arolwg yn <http://www.oecd.org/daf/fin/financial-education/measuringfinancialliteracy.htm>

⁸ Comisiwn Gwarannoedd a Buddsoddiadau Awstralia – manylion yr Arolwg Olrhain Agweddau ac Ymddygiad Ariannol yn <http://asic.gov.au/regulatory-resources/find-a-document/reports/rep-419-australian-financial-attitudes-and-behaviour-tracker/>

⁹ <http://comfy.moneyadviceservice.org.uk/system/comfy/cms/files/files/000/000/213/original/financial-capability-and-wellbeing.pdf>

¹⁰ Y diffiniad o Allu Ariannol o'r Ymgynghoriad ar Strategaeth y Deyrnas Unedig a'r Camau Nesaf, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, Mawrth 2015 https://prismic-io.s3.amazonaws.com/fincap-two%2F7ac2f4a9-bf30-4da2-b191-3859eea9396c_uk_financial_capability_strategy_consultation_response_march2015_online.pdf

Fel y gwelir yn y diagram, mae modd a phwysau ariannol hefyd yn dylanwadu ar lesiant ariannol. Mae modd a phwysau yn cynnwys yn bennaf incwm a chyfansoddiad y teulu, sef nifer yr oedolion, yr oedolion dibynol a'r plant dibynol yn y teulu.



Y ffordd orau i ddeall Ffactorau Galluogrwydd Ariannol yw fel cyfuniad o nodweddion a all atal neu alluogi ymddygiad ariannol-alluog. Fe'u rhennir fel a ganlyn:

■ galluogrwydd **mewnol**:

- **'sgiliau a gwybodaeth'**, y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel **medr**; ac
- **'agweddau a chymhellion'**, y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel **meddylfryd**.

■ galluogrwydd **allanol**:

- **'hwylustod a hygyrchedd'**, y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel **cyswllt** (yn unol â rhai pryderon sydd wedi'u trafod yn yr adran o'r ddogfen hon ar 'hwylustod a hygyrchedd').

Rôl yr arolwg

Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i helpu strategaethau Cymru a'r Deyrnas Unedig mewn tair ffordd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r amcanion a awgrymwyd gan adolygiad Cronfa Ymddiriedolaeth Llythrennedd ac Addysg Ariannol Rwsia yn 2013 o Arolygon Galluogrwydd Ariannol ledled y byd.¹¹

1. **'map'** o allu ariannol – yn dangos ble mae'r ymddygiad yn gryfach neu'n wannach yn y boblogaeth, ac i ba raddau y mae hyn yn amrywio yn ôl grŵp oedran, rhanbarth, statws gwaith, deiliadaeth tai neu gyfansoddiad y teulu, er enghraifft;
2. dull **diagnostig** - yn cynnig damcaniaethau ynghylch pam mae galluogrwydd yn gryfach neu'n wannach - rwy edrych ar y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol sy'n galluogi ymddygiad ariannol-alluog neu'n ei atal. Mewn geiriau eraill, a yw galluogrwydd ariannol isel fel petai'n cael ei sbarduno gan ddiffyg 'sgiliau a gwybodaeth' o'i gyferbynnu â diffyg mynediad digidol neu hunanhyder; a
3. **monitor lefel-uchel**, yn olrhain lefelau galluogrwydd ariannol dros oes y Strategaeth. Wedi dweud hynny, rhaid cydnabod na fydd lefelau galluogrwydd yn codi'n gyflym, yn sicr ar lefel y boblogaeth gyfan.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canfyddiadau cychwynnol i ateb y ddau cyntaf o'r amcanion hyn, hynny yw mapio a diagnosio meysydd problemus er mwyn helpu ymarferwyr i gynllunio ymyriadau a'u cyflawni. Wedyn dylai effeithiolrwydd yr ymyriadau hyn ei hunan gael i brofi drwy eu cloriannu'n gadarn ar lefel y rhaglen, yn hytrach na thrwy ddefnyddio'r Arolwg Galluogrwydd Ariannol ei hun.

Er mwyn ateb y trydydd amcan, yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth Galluogrwydd Ariannol, byddwn yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr o'r sector i ddatblygu mesuriadau cyfansawdd o allu ac ymddygiad ariannol. Bydd y mesuriadau hyn yn deillio o'r Arolwg Galluogrwydd Ariannol. Cyhoeddir manylion y mesuriadau yn 2016.

Rydym yn disgwyl cynnal yr arolwg sawl gwaith dros oes y strategaeth deng mlynedd. Ni fyddwn yn cynnal yr arolwg yn ystod 2016. Bydd hynny'n rhoi amser i ni ac i gyfranddeiliaid y sector ddadansoddi'r data ac, os yw'n briodol, ystyried materion yn fanylach mewn cyfres o 'ddadansoddiadau dwfn'. Trefnir bod y set ddata gyflawn ar gael drwy Wasanaeth Data'r Deyrnas Unedig.¹²

¹¹ Perotti, Valeria; Zottel, Siegfried; Iarossi, Giuseppe; Bolaji-Adio, Adedayo. 2013. Making sense of financial capability surveys around the World : a review of existing financial capability and literacy measurement instruments. Washington DC ; World Bank. <http://responsiblefinance.worldbank.org/~media/GIAWB/FL/Documents/Misc/Financial-Capability-Review.pdf>

¹² <http://ukdataservice.ac.uk/get-data>

Sgoriau cryno i'w mapio a'u diagnosis

Grwpio a gosod trothwyon

Roedd Arolwg Galluogrwydd Ariannol 2015 yn cynnwys 61 o gwestiynau i fesur ymddygiadau hunan-gofnodedig ynglŷn â 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd', 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' a 'delio ag anawsterau ariannol'.

Roedd angen inni grynhoi'r canfyddiadau allweddol er mwyn cynnig golwg gychwynnol ar y map a'r diagnosis o feysydd problemus galluogrwydd ariannol yng Nghymru. Mae'r siart yn dangos y strwythur cychwynnol yr ydym wedi'i ddefnyddio er mwyn cynhyrchu hyn. Ym mhob pau, rydym wedi creu topigau ac wedyn wedi grwpio nifer fach o gwestiynau allweddol o amgylch y topigau hyn.

Peuoedd ymddygiad	
Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	
Cymryd rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> ■ Cadw golwg ar falans y cyfrif cyfredol ■ Ymagwedd at gyllideb sy'n gweithio (hunan-gofnodedig) ■ Cadw at ymrwymadau
Celc at y tymor byr	<ul style="list-style-type: none"> ■ Cynilo bob mis/bron bob mis ■ Gallu talu bil £300 annisgwyl o gynilion neu ag arian parod
Defnyddio credyd yn gall	<ul style="list-style-type: none"> ■ Ddim yn cylchdroi cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus ■ Dyled ansicredig o lai nag un mis o incwm
Cynyddu incwm i'r eithaf	<ul style="list-style-type: none"> ■ Gwirio tariffau cyflenwyr (ffôn symudol, cyfleustodau etc.)
Paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli	
Wedi gwneud cynllun	<ul style="list-style-type: none"> ■ Wedi gosod nodau ariannol ■ Wedi gwneud cynllun i gyrraedd eu nodau (wedi'i seilio ar bawb)
Adeiladu gwytnwch	<ul style="list-style-type: none"> ■ Cynilion yn hafal i 3 mis o incwm o leiaf ■ Wedi trefnu yswiriant bywyd
Paratoi at ymddeol	<ul style="list-style-type: none"> ■ Talu i mewn i bensiwn neu â chynllun pensiwn blaenorol (oedran gweithio yn unig) ■ Wedi gwneud cynllun ar gyfer gofal hirdymor (50+ yn unig)
Delio ag anawsterau ariannol	
Rheoli dyled	<ul style="list-style-type: none"> ■ Nid yw dyledion yn faich trwm ■ Heb golli tri mis o daliadau (yn y chwe mis diwethaf)

Mae grwpiau'r topigau a'r cwestiynau yn y peuoedd yn deillio o farn esblygol ar gydrannau galluogrwydd ariannol. Gan weithio'n ôl drwy amser, dyma'r ffordd orau i grynhoi hyn:

- datblygwyd y topigau a'r grwpiau uchod yn sgil proses chwe mis o adolygu a diweddarau holiadur 2015;¹³
- seiliwyd y grwpiau yn y peuoedd hefyd ar y model galluogrwydd ariannol y manylwyd arno yn yr Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a'r Camau Nesaf ym mis Mawrth 2015;¹⁴
- ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, diweddarodd dogfen Mawrth 2015 y model a gynigiwyd yn y Strategaeth Ddrafft¹⁵ a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym Medi 2014;

¹³ Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adroddiad technegol Arolwg 2015

¹⁴ https://prismic-io.s3.amazonaws.com/fincap-two%2F7ac2f4a9-bf30-4da2-b191-3859eea9396c_uk_financial_capability_strategy_consultation_response_march2015_online.pdf

¹⁵ https://prismic-io.s3.amazonaws.com/fincap-two%2F7ac2f4a9-bf30-4da2-b191-3859eea9396c_uk_financial_capability_strategy_consultation_response_march2015_online.pdf

- cafodd y peuoedd ymddygiad a ddefnyddiwyd yn y ddwy ddogfen hyn eu seilio ar y diffiniadau a ddefnyddiwyd wrth gynllunio Orlheiniwr Galluogrwydd Ariannol 2013;¹⁶ ac
- roedd y peuoedd ymddygiad a ddefnyddiwyd yn Orlheiniwr 2013 yn fersiynau diwygiedig o'r peuoedd a luniwyd yn Arolwg Gwaelodlin 2005.¹⁷

Canlyniad y broses hon yw ein bod wedi llwyddo i lunio grwpiau sydd mewn termau bras iawn yn adlewyrchu'r farn gyffredinol ynghylch pa ymddygiadau sy'n bwysig. Y grwpiau hyn yw sail map a diagnosis yr adroddiad hwn, ac fe'u bwriedir i gynnig y darlun mwyaf gwybodus sy'n bosibl ar hyn o bryd ar sail golwg gychwynnol at ddata 2015.

Aethom ati mewn modd tebyg yn achos y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol a allai esbonio amrywiadau yn ymddygiadau pobl. Unwaith eto, er mwyn llunio map a diagnosis cychwynnol, cafodd y cwestiynau eu grwpio'n normadol a chafodd trothwyon eu diffinio.

Ffactorau Galluogrwydd Ariannol	
Medr (sgiliau a gwybodaeth)	
Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> ■ Gallu darllen y balans ar gyfriflen banc ■ Sylweddoli, os yw chwyddiant yn 5% a llog yn 3%, fod pŵer prynu yn is
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"> ■ Cyfrifo balans diwedd y flwyddyn os caiff £100 ei dalu i gyfrif cynilo yn ôl llog gwarantedig o 2% y flwyddyn
Meddylfryd (agweddau a chymhellion)	
Agweddau at y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> ■ Anghytuno'n gryf eu bod yn well ganddynt fyw er mwyn heddiw, yn hytrach na chynllunio ar gyfer yfory ■ Credu ei bod yn bwysig iawn cynilo ar gyfer diwrnod glawog ■ Credu ei bod yn bwysig iawn gosod arian o'r neilltu at ymddeol
Hyder a hunan-ffeithiolrwydd	<ul style="list-style-type: none"> ■ Teimlo'n hyderus yn rheoli eu harian (8 neu fwy allan o 10) ■ Anghytuno bod y sefyllfa ariannol yn eu gwneud yn nerfus ■ Anghytuno na fydd dim byd a wnânt yn gwneud gwahaniaeth yn eu sefyllfa ariannol
Cymryd cyfrifoldeb	<ul style="list-style-type: none"> ■ Credu ei bod yn bwysig cadw golwg ar incwm a gwariant ■ Credu ei bod yn bwysig chwilio am y fargen orau ■ Ddim yn credu bod "prynu'n fympwyol yn aml" yn debyg iddyn nhw ■ Anghytuno eu bod yn rhy brysur i roi trefn ar eu materion ariannol ■ Trafod arian yn agored gyda ffrindiau, teulu neu bartner ■ Credu bod "addasu pethau nad ydynt yn hanfodol wrth i fywyd newid" yn debyg iddyn nhw
Cyswllt (hwylustod a hygyrchedd)	
	<ul style="list-style-type: none"> ■ Teimlo'n hyderus yn eu medr i wneud penderfyniadau ar gynhyrchion ariannol (8 neu fwy allan o 10) ■ Wedi cyrchu'r rhynggrwyd yn y saith diwrnod diwethaf ■ Cytuno eu bod yn fodlon bancio ar-lein

¹⁶ <https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/the-financial-capability-of-the-uk>

¹⁷ <http://www.bristol.ac.uk/geography/research/pfrc/themes/fincap/baseline-survey.html>

Sgoriau Ymddygiad a Sgoriau Ffactorau Galluogrwydd Ariannol

Ar sail y grwpiau a ddisgrifiwyd, cyfrifwyd sgôr gyffredinol i bob un o'r peuoedd ymddygiad a phob un o'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol. Gwnaethom hyn drwy gymryd cyfartaledd y gyfran o oedolion a oedd yn cyrraedd y trothwy ar draws pob cwestiwn cymwys.

Rhoddodd hyn wyth sgôr. Mae tair yn ymwneud ag ymddygiadau:

1. 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd';
2. 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'; a
3. 'delio ag anawsterau ariannol'.


Mae'r pump arall yn ymwneud â'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol:

4. 'sgiliau a gwybodaeth';
5. 'agweddau a chymhellion' – agweddau at y dyfodol;
6. 'agweddau a chymhellion' – hyder a hunan-ffeithiolrwydd;
7. 'agweddau a chymhellion' – cymryd cyfrifoldeb; ac
8. 'hwylustod a hygyrchedd'.

Y sgoriau hyn yw sylfaen y gwaith mapio a diagnosio yn yr adroddiad hwn. Fe'u dangosir mewn 'siartiau swigod' fel bod modd gweld ble mae grwpiau penodol yn wahanol i'r cyfartaledd cyffredinol, fel y gwelir yn yr enghraifft sydd wedi'i seilio ar 'reoli arian yn dda o ddydd i ddydd'.

Ar draws poblogaeth oedolion Cymru gyfan, y sgôr gyfartalog ar gyfer 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd' yw 59%, ond nid yw hynny'n golygu bod 59% o'r boblogaeth yn rheoli eu harian yn dda o ddydd i ddydd.

Siart enghreifftiol: Pwy sy'n rheoli eu harian yn dda neu ddim cystal?



Mae'r sgoriau hyn yn rhoi golwg gychwynnol ar y canfyddiadau sy'n dechrau dod i'r fei o Arolwg 2015. Ond golwg gychwynnol yn unig yw hon ac mae angen ei darllen gan gofio ambell gafeat. Mae'r adran nesaf yn trafod y materion hyn yn fanylach ac yn rhoi'n hymagwedd arfaethedig ni at fynd i'r afael â nhw.

Profi a gwella'n hymagwedd ddadansoddol

Fel sydd newydd ei drafod, bu'n rhaid lleihau nifer fawr o gwestiynau yn yr arolwg yn nifer fach o fesuriadau allweddol er mwyn rhoi map a diagnosis cychwynnol. Roedd hynny'n golygu bod angen symleiddio weithiau. Dylai'r sgoriau a welir yn yr adroddiad hwn gael eu darllen yn unol â'r amodau a ganlyn.

Hunan-gofnodedig yw pob mesuriad o ymddygiad pobl, ond yn niffyg data arsylwi, dyma'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Wrth ddylunio'r holiadur a'r gwaith maes, gofaldwyd lleihau'r tebygrwydd y byddai pobl yn rhoi atebion 'cymdeithasol dderbyniol', ac os yw hynny'n digwydd mae cymariaethau rhwng grwpiau demograffig yn dal yn ddilys ac yn ddiddorol.

Mae amgylchiadau pobl yn amrywio, felly bydd pwysigrwydd a dymunoldeb cymharol pob un yn amrywio rhwng pobl wahanol. Er enghraifft, i rywun sydd â balans ar ei gerdyn credyd gallai fod yn llai doeth cynilo'n gyson na chlirio'r balans. Er hynny rydym wedi dewis ymddygiadau a throthwyon y gellid barnu'n gyffredinol eu bod yn ddymunol. Mae hyn wedi'i seilio ar ymchwil flaenorol megis holiadur gwaelodlin 2005 (a ddatblygwyd ei hun drwy ymchwil ansoddol gyda defnyddwyr) ac ymchwil ansoddol a wnaed ar ran y Gwasanaeth Cyngori Ariannol.¹⁸

Mewn llawer o ymddygiadau ariannol does dim angen 'dibyn' sy'n gwahanu'r 'da' a'r 'drwg'. Mae hynny'n golygu:

- y gall symud tuag at y trothwyon uchod fod yn ddymunol (e.e. dechrau cynilo ond gwneud hynny'n anghyson yn unig); ac
- yn yr un modd, gall symud ymhellach heibio i drothwy fod yn ddymunol hefyd (e.e. symud o gynilo bron bob mis i gynilo bob mis).

Mae symleiddio'n dileu manylion. Mae hyn yn anochel, er enghraifft, wrth leihau'r 40 o gwestiynau ynghylch rheoli arian o ddydd i ddydd yn un mesuriad. Er hynny, mae'r adroddiad yn cynnig darlun manylach o broblemau penodol drwy ddefnyddio cwestiynau eraill o Arolwg 2015. Hefyd, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o'r arolwg. Bydd y set ddata gyflawn ar gael i ymchwilwyr neu ymarferwyr wneud eu gwaith dadansoddi eilaidd eu hunain. Disgwyliwn ddadansoddi'r data'n fanylach cyn yr Arolwg Galluogrwydd Ariannol nesaf.

Normadol yw'r grwpiau a'r trothwyon, yn yr ystyr nad ydynt wedi'u cynllunio ar sail pa ymddygiadau a ffactorau sy'n cyfateb i ddata Arolwg 2015. Mae hynny'n golygu bod yna risg bod y dull dadansoddi wedi'i seilio ar yr hyn yr ydyn ni'n credu ei fod yn bwysig, yn hytrach na'r hyn y mae'r data yn dweud wrthon ni ei fod yn bwysig. Ceir perygl hefyd ein bod yn grwpio ffactorau a all fod yn tynnu i gyfeiriadau gwahanol.¹⁹ Un gydran allweddol yn ffocws strategaethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ar ddirnad a chliriannu yw'r angen am brofion empirig ar ein rhagdybiaeth ni ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n bwysig neu'r hyn sy'n ddymunol. Mae dadansoddi pellach wedi dechrau i wirio a yw'r grwpiau presennol yn cael eu hategu'n llawn gan ddata 2015 ac i fireinio'n dulliau os oes angen gwneud hynny. Disgwyliwn gyhoeddi canlyniadau'r gwaith hwn yn 2016 fel rhan o ddatblygu mesuriadau ar gyfer llwyddiant cyffredinol strategaethau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

¹⁸ Financial Capability and Well being Qualitative Research a gynhaliwyd gan TNS BMRB ar ran y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, 2015 <http://comfy.moneyadviceservice.org.uk/system/comfy/cms/files/files/000/000/213/original/financial-capability-and-wellbeing.pdf>

¹⁹ Dyma bryder posibl penodol o ran hwylustod a hygyrchedd, lle mae'n ymddangos bod cysylltiad â'r rhyngwrwyd, defnydd y rhyngwrwyd ac agweddau ato yn uwch ymysg grwpiau gwahanol o hyder wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion a gwasanaethau ariannol.

Mapio ymddygiad

'Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'

Pa ymddygiadau sy'n creu rheolaeth dda ar arian o ddydd i ddydd?

Mae rheoli arian o ddydd i ddydd yn cynnwys amryw o ymddygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymryd rheolaeth dros faterion ariannol – drwy gadw golwg, arddel ymagwedd effeithiol at reoli cyllidebau'r teulu a thalu biliau ac ymrwymadau'n gyson;
- trefnu celc at y tymor byr – cynilo'n gyson a gallu talu bil £300 annisgwyl o gynilion neu ag arian sbâr;
- defnyddio credyd yn gall – peidio â chylchdroi balansau ar gardiau credyd, defnyddio credyd byrdymor costus na chario swm mawr o ddyled ansicredig; a
- cynyddu incwm i'r eithaf – gwirio cyflenwyr neu dariffau cyfleustodau a gwasanaethu/cynhyrchion ariannol.

Roedd Arolwg 2015 yn cynnwys cwestiynau ar bob un o'r rhain. Er mwyn creu map a diagnosis cychwynnol, rydym wedi grwpio cwestiynau, wedi diffinio trothwyon ymddygiad dymunol, ac wedi llunio sgôr gyfansawdd ar gyfer 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'.

Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb o'r gyfran o oedolion yng Nghymru sy'n cyrraedd y trothwy o ran yr hyn y gellid barnu ei bod yn ddymunol ar gyfer pob ymddygiad, ac yn cymharu hyn â ffigurau'r Deyrnas Unedig. Ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, cymharwyd hefyd â data o arolwg 2005.

Tabl 1 'Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd': sgoriau ymddygiad

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion y DU	
	2015 (795)	2015 (3461)	2005 (5328)
Cymryd rheolaeth			
Cadw golwg: gwybod balans y cyfrif cyfredol +/- £50	62%	59%	56%
Credu bod ganddynt ymagwedd at gyllideb sy'n gweithio*	60%	61%	–
Cadw at ymrwymadau heb anhawster	56%	59%	48%
Celc at y tymor byr			
Cynilo bob mis/bron bob mis	51%	56%	–
Gallu talu bil £300 annisgwyl o gynilion neu ag arian parod heb dorri nôl	68%	68%	–
Defnyddio credyd yn gall			
Ddim yn cylchdroi cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus	77%	77%	–
Dyled ansicredig o lai nag un mis o incwm	72%	70%	–
Cynyddu incwm i'r eithaf			
Gwirio tariffau cyflenwyr (ffôn symudol, cyfleustodau, etc.)	79%	78%	–
* Wedi rhoi sgôr o 8-10/10 i'w hymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant lle mae 0 yn golygu nad yw'n dda o gwbl a 10 yn golygu ei bod yn dda iawn			

Mae hyn yn cynnig golwg ar raddfa'r dasg sy'n wynebu ymarferwyr sy'n ceisio gwella rheolaeth ariannol oedolion yng Nghymru o ddydd i ddydd.

Yn fras, o ran y rhan fwyaf o ymddygiadau, rhwng hanner a dau draean o'r boblogaeth mewn oed yng Nghymru sy'n cyrraedd y trothwy, sy'n golygu bod rhwng hanner ac un rhan o dair heb ei gyrraedd. Yr unig eithriadau yw cynyddu incwm i'r eithaf, lle mae pedair rhan o bump o'r oedolion yn cyrraedd y trothwy, a bod â dyled ansicredig o lai na mis o incwm, lle mae bron tri chwarter yn cyrraedd y trothwy.

Mae'r ymddygiadau y soniodd oedolion Cymru amdanynt yn debyg i'r rhai a grybwyllwyd gan oedolion yn y Deyrnas Unedig, er bod oedolion yng Nghymru'n llai tebyg na'r rhai yn y Deyrnas Unedig o ddweud eu bod yn cynilo bob mis/bron bob mis.

Un mesuriad cyffredinol o reolaeth ariannol o ddydd i ddydd

Gan hynny, mae modd cyfuno'r ymddygiadau hyn yn un dangosydd ar gyfer 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd' er mwyn ystyried a yw'n ymddangos bod grwpiau penodol yn y boblogaeth yn rheoli eu harian gryn dipyn yn well neu'n waeth. Mae hyn wedi'i gyflawni fel a ganlyn:

1. yn gyntaf cyfrifwyd y gyfran sy'n cyrraedd pob trothwy fel y dangoswyd yn y tabl blaenorol;
2. wedyn cyfrifwyd sgôr gyfartalog i bob un o'r pedwar is-bau, sef cymryd rheolaeth, celc at y tymor byr, defnyddio credyd yn gall a chynyddu incwm i'r eithaf. Gwnaed hyn drwy gyfrif cyfartaledd canolig syml o'r sgoriau ym mhob is-bau; a
3. yn olaf rydym wedi cymryd cyfartaledd canolig syml o'r sgoriau o'r pedwar is-bau.

O ran oedolion yng Nghymru, mae hyn yn rhoi sgôr gyffredinol o 59%.

Pwy sydd ddim yn rheoli arian cystal o ddydd i ddydd?

Mae mapio ble mae ymddygiad yn gryf neu'n wan yn rhoi dirnadaeth ychwanegol i'r ymarferwyr er mwyn cynllunio ymyriadau'n fwy effeithiol. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol eisoes yn defnyddio data o Arolwg 2015 i lywio gwaith i ddatblygu cymorth cyllidebu sy'n cael ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).


Ceir peth amrywio rhwng gwahanol adrannau o'r boblogaeth, fel y gwelir yn Siart 1 (ond nid cymaint o amrywio ag yn y bau ymddygiad nesaf, sef 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli').

Mae'r ffigurau'n dangos sgôr ymddygiad pob grŵp. Mae'r swigod gwyrdd uwchlaw'r llinell doredig yn grwpiau sydd â sgoriau ymddygiad sy'n gyfartalog neu'n well. Mae swigod coch islaw'r llinell yn dangos grwpiau a sgoriodd lai na'r cyfartaledd.²⁰ Mae maint y swigod yn adlewyrchu maint cymharol pob grŵp. Dangosir detholiad o grwpiau yn y siart: ni fwriedir iddo fod yn gynhwysfawr ond yn hytrach darlunio'r amrediad sgoriau ymddygiad yn y bau hon.

Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai ymyriadau wedi'u targedu fod yn briodol i rai o'r grwpiau isaf eu sgoriau, ond hefyd bod llawer o bobl â sgoriau isel i'w cael ar wasgar ar draws y boblogaeth. Ni fydd canolbwyntio ar y grwpiau isaf eu sgoriau yn unig yn mynd i'r afael yn ddigonol â galluogrwydd ariannol isel o ran 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'.

²⁰ Mae'n anodd cymhwyso profion o arwyddocâd ystadegol at fesuriad a seiliwyd ar sawl cwestiwn, felly cyflwynir y canlyniadau gyda'r cafeat ein bod heb lwyddo i wneud unrhyw brofion arwyddocâd ystadegol.

Siart 1 'Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd': sgoriau ymddygiad



Mae'n ymddangos bod sgoriau ymddygiad ar gyfer rheoli arian o ddydd i ddydd yn well ymysg y grwpiau a ganlyn. Gwelwyd patrymau tebyg hefyd yn y Deyrnas Unedig.

- **pobl hŷn** – ceir gwelliant graddol yn ôl oedran hyd at fand oedran 75+, ac ar ôl hynny mae'r sgoriau'n gostwng ychydig;
- pobl sydd **wedi ymddeol** (sef effaith sy'n gorgyffwrdd i ryw raddau â'r gwahaniaethau oedran uchod);
- pobl mewn **rhengoedd cymdeithasol uwch**, yn enwedig AB (sydd ynddo'i hun yn gysylltiedig ag incwm teuluol uwch); a
- **pharchen-feddiannwyr sydd heb forgais** (sydd â'r label 'perchen yn llwyr' ar y siart), sy'n tueddu i fod yn hŷn ac yn gyfoethocach.

Mae'r sgoriau ymddygiad ar gyfer rheoli arian o ddydd i ddydd yn is ymysg y grwpiau a ganlyn. Mae'r grwpiau hyn yn gorgyffwrdd i raddau ac yn gysylltiedig yn rhannol ag incwm is.

- oedolion o oedran gweithio is, **yn enwedig pobl ifanc 18-24 oed**;²¹
- derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol (sydd â'r label budd-daliadau UC yn y siart uchod);
- **pobl ddi-waith** (sy'n is-grŵp llai ymysg derbynwyr UC y dyfodol); a
- thenantiaid **tai cymdeithasol**.

Wedi adnabod y rhain fel pobl sydd â sgoriau ymddygiad is ar gyfer rheoli arian o ddydd i ddydd, gellir defnyddio data'r arolwg i ddarparu rhagor o fanylion am yr ymddygiadau a'r ffactorau penodol sydd y tŷ cefn i hyn. Eir i'r afael â hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Hefyd, er bod rhai grwpiau'n sgorio'n waeth na'i gilydd, mae sgôr gyffredinol yr oedolion (59%) yn is nag y gellid barnu ei bod yn ddymunol. I'r mwyafrif o ymddygiadau a ddefnyddir i gyfrif y sgôr hon, nid yw rhwng hanner ac ychydig dros draean o'r oedolion yng Nghymru yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'. Mae hyn yn awgrymu bod yna achos yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, o blaid ymyriadau sydd wedi'u targedu ar grwpiau sy'n ehangach na dim ond oedolion ifanc, derbynwyr budd-daliadau (gan gynnwys y di-waith) a thenantiaid tai cymdeithasol.

²¹ Drwy'r adroddiad hwn i gyd, dylid nodi bod y grŵp 18-24 yn is-set o'r grŵp Oedolion o Oedran Gwaith.

‘Paratoi at ddigwyddiadau bywyd a’u rheoli’**Pa ymddygiadau sy’n creu pau ymddygiad ‘paratoi at ddigwyddiadau bywyd a’u rheoli’?**

Mae pau ymddygiad ‘paratoi at ddigwyddiadau bywyd a’u rheoli’ yn cynnwys amryw o ymddygiadau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- gwneud cynlluniau a gosod nodau – gosod nod(au) ariannol am y pum mlynedd nesaf a chreu rhywfaint o leiaf o gynllun i gyrraedd unrhyw rai o’r nodau hyn;
- gwytnwch – trefnu rhywfaint o wytnwch ariannol drwy gynilion ac yswiriant bywyd; a
- pharatoi at ymddeol – cyfrannu at bensiwn (os ydych o oedran gweithio) a gwneud rhywfaint o leiaf o gynllun neu baratodau at gostau posibl gofal cymdeithasol (os ydych yn 50 a throsodd).

Roedd Arolwg 2015 yn cynnwys cwestiynau ar bob un o’r rhain. Fel yn achos ‘rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd’, bu’n rhaid lleihau nifer fawr o gwestiynau arolwg yn nifer fach o fesuriadau allweddol er mwyn darparu map a diagnosis cychwynnol. Mae hynny’n golygu ein bod yn symleiddio ac yn rhagdybio weithiau, er enghraifft drwy ragdybio ei bod yn ddymunol bod gennych gwerth tri mis o gynilion ac yswiriant bywyd, os yw popeth arall yn gyfartal. O fewn ein barn gychwynnol am fesuriadau allweddol, dydyn ni ddim wedi caniatáu yn unswydd ar gyfer sicrhau gwytnwch drwy ddefnyddio cynhyrchion diogelu.

Hefyd, mae casglu gwybodaeth fanwl-gywir am asedau pensiwn yn anodd am fod atgofion yr ymatebwyr yn wael yn gyffredinol o ran mathau a gwerthoedd y cronfeydd neu’r hawliau pensiwn. O gofio bod data mwy cadarn ar gael am hyn drwy Arolwg Cyfoeth ac Asedau SYG²² a chyfyngiadau ar hyd yr holiadur, penderfynwyd cynnwys nifer fach yn unig o gwestiynau ynghylch paratoi at ymddeol. Rydym yn ystyried gwerth astudiaeth ar wahân i olrhain cynlluniau defnyddwyr ar gyfer ymddeol.

Mae Tabl 2 yn dangos crynodeb o gyfran yr oedolion yng Nghymru sy’n cyrraedd y trothwy ar gyfer yr hyn y gellid barnu ei fod yn ddymunol ar gyfer pob ymddygiad, gan gymharu hyn lle bo modd â data am oedolion y Deyrnas Unedig. Gellir barnu bod ymddygiadau gwahanol yn ddymunol ar gyfer grwpiau gwahanol, ac felly mae’r canlyniadau wedi’u dangos ar sail y grwpiau y maent yn gymwys iddynt.

Tabl 2 ‘Paratoi at ddigwyddiadau bywyd a’u rheoli’: cyfrannau sy’n cyrraedd y trothwyon

	Holl oedolion Cymru 2015		Holl oedolion craidd y DU 2015	
	Sail	%	Sail	%
Wedi gwneud cynllun				
Wedi gosod nodau ariannol	Pawb (795)	48%	Pawb (3,461)	51%
Wedi gwneud cynllun penodol i gyrraedd y nodau hyn	Pawb (795)	28%	Pawb (3,461)	32%
Adeiladu gwytnwch				
Cynilion yn hafal i 3 mis o incwm o leiaf	Pawb (795)	32%	Pawb (3,461)	34%
Ymysg pobl o oedran gweithio	Pawb o oedran gweithio (609)	25%	Pawb o oedran gweithio (2,786)	28%
Ymysg pobl sydd wedi ymddeol	Pawb sydd wedi ymddeol (188)	49%	Pawb sydd wedi ymddeol (680)	57%
Wedi trefnu yswiriant bywyd	Pawb (795)	46%	Pawb (3,461)	41%
Paratoi at ymddeol				
Talu i mewn i bensiwn neu â phensiwn blaenorol	Pawb o oedran gweithio (609)	51%	Pawb o oedran gweithio (2,786)	50%
Wedi gwneud cynllun ar gyfer gofal hirdymor	Pawb 50+ (331)	22%	Pawb 50+ (1,301)	28%

²² <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/was/wealth-in-great-britain-wave-3/index.html>

Er bod y canfyddiadau'n cyd-fynd yn fras â chanfyddiadau'r Deyrnas Unedig, mae pobl hŷn sydd wedi ymddeol yng Nghymru yn llai tebyg na'r bobl gyfatebol ar lefel y Deyrnas Unedig o ddweud bod ganddynt gynilion sy'n hafal i 3 mis o incwm o leiaf. Hefyd, mae oedolion yng Nghymru 50+ oed yn llai tebyg o ddweud eu bod wedi gwneud cynllun ar gyfer gofal hirdymor nag oedolion 50+ oed ar lefel y Deyrnas Unedig.

Pwy sydd ddim yn paratoi cystal ar gyfer digwyddiadau bywyd?

Fel y gwelwyd yn achos 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd', ceir amrywio sylweddol rhwng adrannau gwahanol o'r boblogaeth, fel y gwelir yn Siart 2. Sgoriodd rhai o'r grwpiau isaf eu sgoriau yn is na'r cyfartaledd hefyd ar gyfer 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd'. Ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Mae hefyd yn werth nodi:

- bod sgoriau 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' yn is at ei gilydd na sgoriau rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd, hynny yw **o ran arian, rydym yn rheoli'r presennol yn well nag yr ydyn ni'n cynllunio ar gyfer y dyfodol**. Mae hyn yn gyson yn fras â chanfyddiadau Arolwg Gwaelodlin 2005 o Allu Ariannol.²³ Mae'n debyg na fydd hyn yn syndod ychwaith i wyddonwyr ymddygiad,²⁴ na defnyddwyr MINDSPACE,²⁵ er nad yw data'r arolwg yn rhoi darlun clir i ddangos a yw hyn yn deillio o'r ffaith bod yn well gan bobl y presennol na'r dyfodol neu'n disgwyl i bethau fod yn well yn y dyfodol (tuedd optimistaeth); a
- bod sgoriau 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' yn amrywio'n fwy rhwng is-grwpiau na sgoriau 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd', hynny yw **mae'r bwlch rhwng y gorau a'r gwaethaf yn ehangach yn achos cynllunio at y dyfodol nag yn achos rheoli'r presennol**. Unwaith eto, mae hyn yn fras yn gyson â gwaelodlin 2005.

38% oedd y sgôr ymddygiad gyfartalog yn y bau 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' ymysg holl oedolion Cymru (a welir fel llinell doredig ar Siart 2): roedd hyn ychydig yn is na sgôr ymddygiad y Deyrnas Unedig (40%).

Ceir amrywio sylweddol rhwng adrannau gwahanol o boblogaeth Cymru, fel y gwelir yn y siart swigod. Mae'r ffigurau'n dangos sgôr ymddygiad pob grŵp. Mae'r swigod gwyrdd uwchlaw'r llinell yn grwpiau sydd â sgoriau ymddygiad sy'n gyfartalog neu'n well. Mae'r swigod coch islaw'r llinell yn dangos grwpiau a sgoriodd lai na'r cyfartaledd.²⁶ Mae maint y swigod yn adlewyrchu maint cymharol pob grŵp. Mae'r patrymau ymateb yr un fath yn fras yn y Deyrnas Unedig.

Roedd y sgoriau ymddygiad yn y bau hon yn uwch ymysg:

- **pobl 25-54;**
 - pobl mewn **rhengoedd cymdeithasol uwch**, yn enwedig AB (sydd ynddo'i hun yn gysylltiedig ag incwm teuluol uwch); a
 - pherchen-feddianwyr sy'n talu am eu cartref â **morgais**.
- Roedd y sgoriau'n is ymysg y grwpiau hyn, y mae rhai ohonynt yn gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig ag incwm is:
- **pobl ifanc 18-24 oed**²⁷ a **phobl 75+ oed**, er y dylid nodi'r nifer fach o bobl 75+ (56 o bobl yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn 75+ oed) sy'n golygu nad yw'r gwahaniaeth yng Nghymru mor amlwg ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig;
 - derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol;
 - **pobl ddi-waith** (sy'n is-grŵp llai ymysg derbynwyr UC y dyfodol), er y dylid nodi'r nifer fach (35 o bobl yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn ddi-waith);
 - tenantiaid **tai cymdeithasol**.


²³ Defnyddiodd Gwaelodlin 2005 beuoedd ymddygiad gwahanol. Gwelodd berfformiad llawer gwell o ran Dod â dau ben llinyn ynghyd a Chadw golwg nag o ran Cynllunio ymlaen. Gellir barnu bod Dod â dau ben llinyn ynghyd a Chadw golwg yn Gwaelodlin 2005 yn cyfateb yn fras i Reoli arian yn dda o ddydd i ddydd yn 2015. Yn yr un modd, mae Cynllunio ymlaen yn 2005 yn ymdrin â llawer o'r un deunydd â Pharatoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli.

²⁴ RSA 2015 Wired for Imprudence <https://www.thersa.org/discover/publications-and-articles/reports/wired-for-imprudence/>

²⁵ <http://www.instituteforgovernment.org.uk/our-work/better-policy-making/mindspace-behavioural-economics>

²⁶ Mae'n anodd cymhwyso profion o arwyddocâd ystadegol at fesuriad a seiliwyd ar sawl cwestiwn, felly cyflwynir y canlyniadau gyda'r cafeat ein bod heb lwyddo i wneud unrhyw brofion arwyddocâd ystadegol.

²⁷ Fel yn nata 2015, gwelodd Arolwg Gwaelodlin 2005 o Allu Ariannol effaith oedran ac mai'r ifancaf oedd yn sgorio isaf. Ond dangosodd data 2005 wahaniaeth cliriach hefyd rhwng pobl o dan 40 (y sgoriau gwaethaf) a phobl dros 40s (a sgoriodd yn well) na data 2015. Er hynny, mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â'r cwestiynau gwahanol a gafwyd yn y peuoedd yn y ddau arolwg.

Siart 2 Pwy sy'n paratoi'n well neu ddim cystal ar gyfer digwyddiadau bywyd?

Hefyd, er bod sgoriau rhai grwpiau'n waeth na'i gilydd, mae sgôr gyffredinol yr oedolion (38%) yn is na'r hyn y gellid barnu ei bod yn ddymunol. Ar gyfer y mwyafrif o'r ymddygiadau a ddefnyddiwyd i gyfrif y sgôr hon, dim ond rhwng chwarter a hanner yr oedolion yng Nghymru a gyrhaeddodd y trothwy a osodwyd.

Er y gall fod yn briodol targedu ymyriadau ar grwpiau isel eu sgoriau yn benodol, mae hyn yn awgrymu bod angen mynd i'r afael â diffyg ehangach o ran paratoi at ddigwyddiadau bywyd ymysg poblogaeth Cymru yn ei chrynswith.

Delio ag anawsterau ariannol**Pa ymddygiadau sy'n creu pau ymddygiad 'delio ag anawsterau ariannol'?**

Mae'r drydedd set o ymddygiadau'n ymwneud â 'delio ag anawsterau ariannol'. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, yr angen am gyngor ariannol a gofyn amdano. Mae'r ddau fesuriad allweddol sydd wedi'u defnyddio yma wedi'u datblygu mewn gwaith ar ran y Gwasanaeth Cyngori Ariannol i ddiffinio a phroffilio'r boblogaeth sydd mewn gormod o ddyled.²⁸

Maent yn ymdrin ag agweddau emosiynol ac ymddygiadol dyled:

- emosiynol – nid ydynt yn teimlo bod dyledion ac ymrwymadau yn faich 'trwm'; ac
- ymddygiadol – heb fethu tri neu ragor o daliadau yn y chwe mis diwethaf.

Fel y gwelir yn Nhabl 3, ar gyfer pob un o'r rhain mae naw o bob deg o oedolion yng Nghymru yn pasio'r trothwy ac mae 80% yn pasio'r trothwy ar gyfer y ddau.

Mae oedolion yng Nghymru ychydig yn llai tebyg nag oedolion y Deyrnas Unedig o ddweud nad yw dyledion yn faich 'trwm', ond maent yr un mor debyg o ddweud eu bod heb fethu taliadau tri mis yn ystod y chwe mis diwethaf.

²⁸ Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol: Indebted Lives

<https://53b86a9de6dd4673612f-c36ff983a9cc042683f46b699207946d.ssl.cf3.rackcdn.com/indebted-lives-the-complexities-of-life-in-debt-november-2013-v3.pdf>

Tabl 3 'Paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli': y cyfrannau'n cyrraedd y trothwy²⁹


	Holl oedolion Cymru 2015	Holl oedolion craidd y DU 2015
	(802) %	(3,461) %
Nid yw dyledion yn faich 'trwm'	87%	90%
Heb fethu taliadau tri mis yn ystod y chwe mis diwethaf	90%	89%
Nid yw dyledion yn faich 'trwm' a heb fethu taliadau tri mis ²⁹	80%	82%

Un mesuriad ar gyfer anawsterau ariannol

Gan gadw'r un ymagwedd ag ar gyfer y ddwy bau ymddygiad arall, cyfrifwyd cyfartaledd y ddau ddangosydd er mwyn dangos sgôr ymddygiad gyfartalog ar gyfer y bau hon o 88% yng Nghymru: tebyg iawn i'r 90% a welwyd yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn caniatáu inni ddod o hyd i grwpiau isel eu sgoriau, fel y gwelir yn Siart 3.

Dangosir grwpiau uchel ac isel eu sgoriau yng Nghymru yn Siart 3. Dylid nodi bod dosbarthiad y sgoriau'n llai gwasgaredig nag yn y peuoedd ymddygiad eraill, ac felly mae'r siart swigod wedi'i ddangos ar raddfa wahanol er mwyn caniatáu i'r gwahaniaethau gael eu gweld.

Siart 3 Pwy sy'n well neu'n waeth wrth fynd i'r afael ag anawsterau ariannol?



Mae'r grwpiau isaf eu sgoriau yn cynnwys:

- **pobl ddi-waith** (er y dylid nodi'r nifer fach - 35 o bobl yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn ddi-waith); a
- **derbynwyr budd-daliadau** a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol.

²⁹ Teimlo bod dyled yn faich trwm neu fethu tri thaliad yw sail y diffiniad o ormod o ddyled a ddefnyddiwyd yn ymchwil y Gwasanaeth Cyngori Ariannol 'Indebted Lives'.

Gofyn am gyngor di-dâl ar ddyledion

Ymysg y rhai sydd â gormod o ddyledion (y rhai sydd wedi methu tri thaliad neu sy'n teimlo bod dyled yn faich trwm):

- mae 21% eisoes yn gofyn am gyngor;
- mae 48% yn dweud eu bod yn bwriadu gwneud cyn hir, y byddent yn ystyried gwneud pe bai'r sefyllfa'n mynd yn waeth, y gallent ei ystyried neu eu bod yn meddwl gwneud yn y dyfodol; ac
- mae 26% yn sôn na fyddent byth yn ei ystyried neu'n methu â gweld eu hunain yn gwneud.

Mae'n amlwg bod yna her i annog rhagor o bobl i ofyn am gyngor ar ddyledion.

Ymysg y rhai nad ydynt yn gofyn am gyngor ar hyn o bryd, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd:

- Gallaf drefnu fy materion ariannol a'm dyledion fy hunan (37%); ac
- nid i rywun yn fy sefyllfa ariannol i y mae'r gwasanaethau hyn mewn gwirionedd (26%).

Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau'r Deyrnas Unedig gyfan.

Map o'r heriau

Mae dwyn ynghyd ganfyddiadau o'r tair pau ymddygiad yn creu map sy'n dangos ble mae heriau i'w cael. Yn benodol, gallwn adnabod grwpiau yn y boblogaeth lle mae ymddygiad ariannol-alluog yn amlwg yn llai cyffredin.

Tabl 4 Grwpiau sy'n sgorio'n waeth na'r cyfartaledd ar draws un neu ragor o beuoedd ymddygiad

	Sail heb ei phwysoli	Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	Paratoi ar gyfer digwyddiadau bywyd a'u rheoli	Delio ag anhawster ariannol
Cyfartaledd y DU	3461	59%	40%	90%
Cyfartaledd Cymru gyfan	795	59%	38%	88%
18-24	131	52%	32%	84%
Di-waith	35*	39%	8%	69%
Derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol ³⁰	189	53%	32%	77%
Rhentu cymdeithasol	154	52%	26%	88%
Rheng gymdeithasol D	111	57%	31%	86%
Rheng gymdeithasol E	155	55%	22%	91%

*Gofal, nifer fach

Mae rhai o'r grwpiau hyn yn gorgyffwrdd hefyd, ac felly i ddechrau canolbwyntiwyd ar bobl ifanc 18-24 oed, pobl di-waith, derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol, a thenantiaid tai cymdeithasol.

Mae'r grwpiau targed hyn yn gyson â'r rhai a nodwyd mewn ymchwil flaenorol, yn arbennig data Orlheiniwr Galluogrwydd Ariannol 2013-4 gan Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol (PFR) Prifysgol Bryste.³¹ Mae'r patrymau hyn hefyd yn gyson yn fras â'r rhai a welwyd ledled y Deyrnas Unedig.

Trafodir materion penodol ynglŷn â'r grwpiau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Hefyd mae llawer o'r grwpiau hyn yn sgorio'n is ar agweddau ar y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol a drafodir yn yr adran nesaf.

³⁰ Dyma'r budd-daliadau: Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Budd-dal Tai

³¹ Hayes, D., Collard S., a Kempson E., (2015) Understanding the profile of those most at risk of detriment as a result of low financial capability: Analysis of the Money Advice Service Financial Capability Survey <http://www.bristol.ac.uk/geography/research/pfrc/themes/fincap/understanding-the-profile-of-those-most-at-risk-of-detriment-as-a-result-of-low-financial-capability/>

Diagnosis – beth sy'n atal a beth sy'n galluogi?

Yn yr adrannau blaenorol defnyddiwyd y data fel map i adnabod meysydd ymddygiad sy'n peri problemau penodol. Nodwyd hefyd is-grwpiau yn y boblogaeth a allai gael eu targedu lle mae'r problemau hyn yn crynhoi'n benodol. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth y gall ymarferwyr seilio gwaith arni i gynllunio a chyflawni ymyriadau a mentrau galluogrwydd ariannol. Nodwyd grwpiau targed posibl ac ymddygiadau i'w targedu.

Mae'r adran hon yn defnyddio'r data fel dull dadansoddi er mwyn ceisio deall pa ffactorau sy'n gallu atal ymddygiad ariannol-alluog neu ei alluogi.

Ffactorau Galluogrwydd Ariannol

Mae ymagwedd yr arolwg wedi'i seilio ar fodel o Ffactorau Galluogrwydd Ariannol sy'n hŷn nag Arolwg 2015. Mae'r model wedi'i seilio ar fodel COM-B o fedr, sy'n cael ei ddefnyddio'n eang ym maes seicoleg. Mae hwn wedi'i gymhwyso at faterion ariannol.

Y ffordd orau i ddeall Ffactorau Galluogrwydd Ariannol yw fel cyfuniad o nodweddion a all atal neu alluogi ymddygiad ariannol-alluog. Fe'u rhennir fel a ganlyn:

■ galluogrwydd **mewnol**:

- 'sgiliau a gwybodaeth', y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel medr; ac
- 'agweddau a chymhellion', y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel meddylfryd.

■ galluogrwydd **allanol**:

- 'hwylustod a hygyrchedd', y gellir meddwl amdanynt ar y cyd fel cyswllt (yn unol â rhai pryderon sydd wedi'u trafod yn yr adran o'r ddogfen hon ar 'hwylustod a hygyrchedd').

Ymdrinnir â phob un o'r topigau hyn yn sawl un o gwestiynau'r arolwg. Wedyn dewiswyd trothwy i gynrychioli'r pwynt lle y gallai'r ffactor newid o fod yn ataliad i fod yn rhywbeth sy'n galluogi ymddygiad ariannol-alluog. Defnyddio trothwyon yw'r un dull ag a ddefnyddiwyd i grynhoi ymddygiadau. Unwaith eto, mae'n ymagwedd gychwynnol at grynhoi data cymhleth o'r arolwg. Mae'n fan cychwyn da ar gyfer defnyddio data 2015, ond rydym yn disgwyl mireinio'r ymagwedd cyn cynnal yr arolwg nesaf yn y Deyrnas Unedig yn 2017.

Sgiliau a gwybodaeth

Mae lefel isel rhifedd a llythrennedd oedolion y Deyrnas Unedig wedi'i chofnodi'n dda.³² Mae llawer o gynhyrchion ariannol yn bur gymhleth ac mae yna broblem hysbys o ran dealltwriaeth ymysg defnyddwyr. Yn yr arolwg hwn gwelsom fod hyd yn oed y mesurau symlaf yn anodd i leiafrif arwyddocaol o'r rhai a holwyd. Rôl y cwestiynau am sgiliau a gwybodaeth yn Arolwg 2015 yw rhoi nifer fach o fesuriadau syml sy'n canfod y sawl sydd heb sgiliau a gwybodaeth sylfaenol a nodi a oes cysylltiad rhwng hyn ac ymddygiad ariannol llai galluog. Cymherir â chanlyniadau'r Deyrnas Unedig.

³² Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Arolwg Sgiliau Cyflogaeth 2013, <https://www.gov.uk/government/statistics/employer-skills-survey-local-data>

Isod gwelir crynodeb syn dangos cyfran yr oedolion yng Nghymru a roddodd ateb cywir i bob cwestiwn, gan gymharu hyn â ffigurau'r Deyrnas Unedig. Ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, cymharwyd hefyd â data o arolwg 2005.

Tabl 5 Medr ('sgiliau a gwybodaeth'): % yn rhoi atebion cywir i bob cwestiwn

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion craidd y DU	
	2015 (795)	2015 (3461)	2005 (5328)
Darllen balans ar gyfriflen banc	85%	78%	91%
Deall chwyddiant a phŵer prynu	63%	60%	79%
Cyfrif balans ar ôl i log gael ei ychwanegu	69%	64%	61%

Mae oedolion yng Nghymru'n debycach nag oedolion yn y Deyrnas Unedig o roi atebion cywir i bob un o'r tri chwestiwn, yn benodol i'r cwestiwn yn gofyn i bobl ddarllen balans ar gyfriflen banc (85% yng Nghymru a roddodd ateb cywir, o'i gymharu â 78% yn y Deyrnas Unedig).

Mae'n drawiadol bod rhywfaint o ddirywiad wedi bod yn y Deyrnas Unedig o ran 'sgiliau a gwybodaeth' o'i gymharu ag Arolwg Gwaelodlin 2015. Mae cyfran oedolion y Deyrnas Unedig sy'n gallu darllen cyfriflen banc wedi gostwng 13 phwynt canran o 91% i 78%. Fel o'r blaen, dylid nodi bod gwahaniaethau yn y fethodoleg ond mae'r dirywiad hwn yn peri gofid, ac felly hefyd y gostyngiad mwy byth ymysg y rhai sy'n deall effaith chwyddiant ar werth gwirioneddol cynilion – sydd wedi gostwng i 60% o 79%. Ar y llaw arall mae'r nifer sy'n gallu gwneud cyfrifiad cymharol syml i adio'r llog a enillwyd at falans cynilion wedi codi ychydig bach o 61% i 64% o oedolion y Deyrnas Unedig.

Cysyniadau a chyfrifiadau cymharol syml yw'r rhain ac felly mae'n peri pryder bod hyd at un ym mhob tri o'r oedolion yng Nghymru yn eu cael yn anodd, er bod y cyfrannau hyn yn is nag ar lefel y Deyrnas Unedig. Mae'n codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y gall y defnyddwyr hyn ddewis a rheoli cynhyrchion a gwasanaethau ariannol yn effeithiol.

Ydy darllen cyfriflen banc yn dal yn bwysig?

Mae mynediad i'r rhynggrwyd, defnydd y rhynggrwyd a thechnoleg symudol wedi newid yn fawr ers 2005. Mae hyn yn dod â goblygiadau o ran sut mae pobl yn gwirio'u balansau ac yn rheoli eu cyfrifon cyfredol. O gofio'r newidiadau hyn, mae'n ddilys gofyn:

- Ydy hi'n wirioneddol bwysig a all pobl ddarllen enghraifft o gyfriflen banc yn gywir?
- A allai'r dirywiad ymddangosiadol yn y sgil hwn fod i'w briodoli i'r ffaith bod cyfriflenni'n cael eu defnyddio'n llai eang a bod gwasanaethau banc ar ffônau symudol ac ar y rhynggrwyd yn cael eu defnyddio'n ehangach?

Mae'r ffordd orau i edrych ar atebion pobl i'r cwestiwn cwis yn dibynnu ar sut maen nhw'n dweud eu bod yn cadw golwg ar falans eu cyfrif cyfredol. Dangosir hyn isod ac mae'n awgrymu:


- ei bod yn ymddangos yn y Deyrnas Unedig fod problemau wrth ddarllen cyfriflen banc yn bwysig am fod atebion anghywir i'r cwestiwn hwn yn fwy cyffredin ymysg pobl a oedd yn dweud eu bod yn cadw golwg ar eu balans drwy wirio'r cyfriflenni banc a gaent drwy'r post (darllenodd 25% o'r rhai a oedd yn cadw golwg ar eu balans drwy wirio cyfriflenni post y balans yn gywir, o'i gymharu â 12% o'r rhai a oedd yn cadw golwg drwy fancio ar-lein). Mae'r gyfran is a atebodd yn gywir yng Nghymru yn golygu bod y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yng Nghymru yn llai amlwg ond yn dal yn arwyddocaol (15% o bobl yng Nghymru a oedd yn gwirio cyfriflenni post o'i gymharu ag 8% o'r rhai a oedd yn gwirio drwy fancio ar-lein).
- na all y dirywiad ymddangosiadol gael ei briodoli'n uniongyrchol i gynydd mewn gwasanaethau bancio symudol ac ar-lein am fod defnyddwyr y ddau ddull hyn ymysg y rhai tebycaf o gael yr ateb yn anghywir.

Pwy sydd ddim yn sgorio cystal ar 'sgiliau a gwybodaeth'?

Cyfrifwyd sgôr gyfartalog 'sgiliau a gwybodaeth' i bob is-grŵp. Ar draws yr holl oedolion yng Nghymru, 72% oedd y sgôr: ychydig yn uwch nag yn y Deyrnas Unedig (68%).

Mae Siart 4 yn dangos mai'r bobl sydd debycaf o sgorio'n is ar 'sgiliau a gwybodaeth' yw llawer o'r un grwpiau ag a nodwyd o'r blaen fel rhai a oedd yn peri pryder wrth ddadansoddi'r peuoedd ymddygiad: pobl ifanc 18-24 oed a phobl hŷn 75+ oed, y rhai mewn **tai cymdeithasol neu bobl ddi-waith**. Mae hefyd yn drawiadol bod perfformiad mewn sgiliau a gwybodaeth yn un o'r mesuriadau sy'n amrywio fwyaf rhwng y grwpiau gwahanol yn y boblogaeth.

Siart 4 Pwy sydd â 'sgiliau a gwybodaeth' uwch neu is?



Agweddau a chymhellion

Mae'r ail grŵp penodol o ffactorau yn y model yn ymdrin ag 'agweddau a chymhellion'. Er mwyn crynhoi'r data a chreu sgoriau peuoedd, rydym wedi grwpio'r rhain fel a ganlyn:

- agweddau at y dyfodol;
- hyder a hunan-effeithiolrwydd; ac
- agweddau at gymryd cyfrifoldeb dros faterion ariannol.

Ceir sawl cwestiwn ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn. Fel mewn mesuriadau blaenorol, rydym wedi diffinio trothwy rhwng agweddau cadarnhaol a negyddol.

Agweddau at y dyfodol

Mae'r tabl cryno isod yn dangos bod hanner (52%) yr oedolion yng Nghymru yn amlygu meddylfryd sy'n canolbwyntion fwy ar eu hanghenion a'u dymuniadau presennol, gan nad ydynt yn anghytuno ei bod yn well ganddynt fyw er mwyn heddiw yn hytrach na chynllunio ar gyfer yfory; a chan fod rhyw dwy ran o bump yn credu nad yw'n bwysig iawn cynilo (nac ar gyfer diwrnod glawog nac at ymddeol). Mae'r ymatebion a roddwyd gan oedolion yng Nghymru yn debyg iawn i ymatebion oedolion yn y Deyrnas Unedig, er ei bod yn drawiadol bod dirywiad wedi bod ymysg y gyfran o oedolion y Deyrnas Unedig nad ydynt yn byw er mwyn heddiw yn unig – o 60% yn Arolwg Gwaelodlin 2015, i 49% yn 2015.

Tabl 6 Agweddau at y dyfodol - y cyfrannau sy'n cyrraedd y trothwy

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion craidd y DU	
	2015 (795)	2015 (3461)	2005 (5328)
Ddim yn well ganddynt fyw er mwyn heddiw*	52%	49%	60%
Credu ei bod yn bwysig iawn cynilo ar gyfer diwrnod glawog	44%	40%	n/a
Credu ei bod yn bwysig iawn gosod arian o'r neilltu ar gyfer ymdddeol	42%	42%	n/a
*% yn anghytuno'n gryf neu ychydig â'r gosodiad "O ran arian mae'n well gen i fyw er mwyn heddiw yn hytrach na chynllunio ar gyfer yfory"			

Hyder a hunan-ffeithiolrwydd

Mae hefyd yn bwysig bod defnyddwyr yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar eu sefyllfa ariannol hwy eu hunain.

Eto i gyd, nid yw llawer o oedolion Cymru (44%) yn hyderus iawn wrth reoli eu harian (gan roi sgôr o saith neu lai allan o ddeg iddynt eu hunain) ac mae bron hanner yn cytuno bod eu sefyllfa ariannol yn gwneud iddynt bryderu neu nad ydynt yn gweld eu bod hwy eu hunain yn gallu gwneud gwahaniaeth i'r sefyllfa honno. Unwaith eto roedd ymatebion oedolion yng Nghymru yn debyg iawn i'r rhai yn y Deyrnas Unedig.

Fel o'r blaen, ceir grwpiau penodol yng Nghymru lle mae'r sgoriau'n tueddu i fod yn is, ac sy'n gysylltiedig â'i gilydd – megis **grwpiau incwm is, pobl ddi-waith, a thenantiaid tai cymdeithasol**. Mae grwpiau incwm isel yn enwedig yn annhebyg o deimlo bod ganddynt rym o ran eu sefyllfa ariannol: dim ond 38% o'r rhai ag incwm teuluol blyneddol o lai na £17,500 sy'n anghytuno na fydd dim byd a wnânt yn gwneud llawer o wahaniaeth i'w sefyllfa ariannol, o'i gymharu â 47% ymysg holl oedolion Cymru. Gwelwyd patrymau tebyg yn y Deyrnas Unedig.

Tabl 7 Hyder a hunan-ffeithiolrwydd – y cyfrannau sy'n cyrraedd y trothwy

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion craidd y DU
	2015 (795)	2015 (3461)
Hyderus wrth reoli arian *	56%	58%
Anghytuno bod meddwl am eu sefyllfa ariannol yn gwneud iddynt bryderu	45%	46%
Credu y gallant wneud gwahaniaeth **	47%	48%
*Wedi rhoi sgôr o 8-10/10, lle mae 0 yn golygu 'ddim yn hyderus o gwbl' a 10 yn 'hyderus iawn'		
** % yn anghytuno'n gryf neu ychydig â'r gosodiad "Fydd dim byd a wnaf i yn gwneud llawer o wahaniaeth i'm sefyllfa ariannol"		

Cymryd cyfrifoldeb

Mae maes olaf Ffactorau Galluogrwydd Ariannol mewnol yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb – sef pwysigrwydd cadw golwg ar incwm a gwariant neu chwilio am y fargen orau wrth siopa; yr angen am hunanreolaeth a pheidio â phrynu ar fympwy; yr angen i ymwneud â'ch materion ariannol drwy greu amser neu siarad yn agored a chydhabod bod angen addasu'ch gwariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol pan fydd amgylchiadau'n newid. Mae Tabl 8 yn dangos canlyniadau oedolion yng Nghymru ac yn eu cymharu ag oedolion yn y Deyrnas Unedig.

Tabl 8 Cymryd cyfrifoldeb - y cyfrannau sy'n cyrraedd y trothwy

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion craidd y DU
	2015 (795)	2015 (3461)
Pwysig cadw golwg ar incwm a gwariant *	53%	53%
Pwysig chwilio am y fargen orau i beri bod arian yn mynd ymhellach *	49%	45%
Teimlo nad yw prynu ar fympwy yn 'debyg iddyn nhw'	82%	79%
Anghytuno eu bod yn rhy brysur i roi trefn ar eu materion ariannol ***	67%	64%
Trafod arian yn agored gydag unrhyw un	73%	70%
Teimlo bod addasu gwariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol pan fydd bywyd yn newid yn 'debyg iddyn nhw'	37%	40%
*% yn credu ei bod yn bwysig iawn ** yn rhoi sgôr o 0-7/10, lle mae 0 yn golygu nad yw'n swnio'n debyg iddynt o gwbl a 10 yn golygu ei bod yn swnio'n debyg iawn iddynt *** % yn anghytuno'n gryf neu ychydig â'r gosodiad "Rwy'n rhy brysur i roi trefn ar fy materion ariannol ar hyn o bryd" **** yn rhoi sgôr o 8-10/10, lle mae 0 yn golygu nad yw'n swnio'n debyg iddynt o gwbl a 10 yn golygu ei bod yn swnio'n debyg iawn iddynt		

Mewn modd tebyg i'r Deyrnas Unedig, mae tua hanner (53%) yr oedolion yng Nghymru'n teimlo ei bod yn bwysig iawn cadw golwg ar incwm a gwariant, ond gall fod bwlch rhwng yr hyn y mae pobl yn ei ddweud ac yn ei wneud. O'r rhai a oedd yn credu bod hyn yn bwysig iawn, dim ond 90% a ddywedodd eu bod nhw mewn gwirionedd yn cadw golwg, a 73% sy'n credu bod ganddynt system gyllidebu effeithiol.

Yn yr un modd, mae rhyw wyth ym mhob deg (82%) o'r oedolion yng Nghymru yn sôn nad yw prynu ar fympwy yn debyg iddyn nhw (gan roi sgôr o saith neu lai allan o ddeg), ond rydym wedi gweld yn gynt fod tua chwarter (23%) yr holl oedolion yng Nghymru'n cylchdroi cardiau credyd neu'n defnyddio credyd byrdymor costus.

Mae yna le i wella ymwneud pobl ag arian:

- nid yw ychydig dros chwarter (27%) yr oedolion yng Nghymru yn trafod arian yn agored gydag unrhyw un; ac
- mae un ym mhob deg (11%) yn cytuno eu bod yn rhy brysur i roi trefn ar eu materion ariannol ar hyn o bryd.


Pwy sy'n well neu'n waeth o ran cymryd cyfrifoldeb?

Y sgôr gyfartalog ar draws paw 'cymryd cyfrifoldeb' yng Nghymru yw 60%, sy'n debyg i'r sgôr o 59% yn y Deyrnas Unedig. Mae'r siart swigod yn dangos bod y grwpiau a sgoriodd isaf yn y bau 'cymryd cyfrifoldeb' yr un fath yn gyffredinol â'r grwpiau sy'n sgorio'n isel yn y peuoedd ymddygiad:

- **pobl ifanc 18-24 oed ac oedolion hŷn 75+ oed;**
- **grwpiau incwm isel;**
- **tenantiaid tai cymdeithasol;**
- **y rhai yn rhengoedd cymdeithasol D ac E; a**
- **phobl ddi-waith** (er bod derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol wedi sgorio yn unol â chyfartaledd Cymru).

Roedd ymatebion oedolion yng Nghymru yn debyg yn fras i ymatebion oedolion y Deyrnas Unedig.

Siart 5 Pwy sy'n well neu'n waeth o ran cymryd cyfrifoldeb?



Ond unwaith eto, fel y nodwyd wrth edrych ar 'reoli arian yn dda o ddydd i ddydd', yn aml nid yw'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau uchaf ac isaf eu sgoriau mor fawr â hynny (mae'r raddfa ar y siart wedi'i hymestyn er mwyn dangos y gwahaniaethau'n gliriach). Er bod rhywfaint o fantais o dargedu ymyriadau ar yr is-grwpiau penodol a ddisgrifiwyd, mae hyn yn awgrymu bod yna faterion ehangach ar gyfer y boblogaeth.

Hwylustod a hygyrchedd

Y maes olaf mewn galluogrwydd ariannol yw 'hwylustod a hygyrchedd' – sef i ba raddau y gall defnyddwyr ymwneud â'r system ariannol – gan hyderu yn eu medr i ddewis cynhyrchion neu wasanaethau ariannol a'u cyrchu'n ddigidol neu drwy sianel all-lein. Mae'r arolwg yn gweld bod rhyw hanner oedolion Cymru'n dweud eu bod yn teimlo'n hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion ariannol a bod chwech ym mhob deg yn fodlon bancio ar-lein.

Unwaith eto roedd sgoriau oedolion yng Nghymru yn debyg iawn i sgoriau cyffredinol oedolion ar draws y Deyrnas Unedig.

Tabl 9 Cyswllt ('hwylustod a hygyrchedd') - y cyfrannau sy'n cyrraedd y trothwy

	Holl oedolion Cymru	Holl oedolion craidd y DU
	2015 (795)	2015 (3461)
Hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion ariannol*	47%	47%
Wedi cyrchu'r rhyngwrwyd yn y saith diwrnod diwethaf	84%	86%
Cytuno eu bod yn fodlon bancio ar-lein**	59%	62%
* Wedi rhoi sgôr o 8-10/10, pan ofynnwyd pa mor hyderus oeddent wrth wneud penderfyniadau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, lle mae 0 yn golygu dim hyder o gwbl a 10 yn hyderus iawn **% yn cytuno'n gryf neu ychydig â'r gosodiad "Byddwn yn fodlon defnyddio'r rhyngwrwyd i gyflawni trafodion bancio o ddydd i ddydd"		

Fel y gellid disgwyl, pobl hŷn sydd wedi ymddeol yw'r lleiaf tebyg o fod wedi cyrchu'r rhyngwrwyd yn ystod y saith diwrnod diwethaf neu ddweud eu bod yn fodlon bancio ar-lein. Er bod pobl ifancach yn sgorio'n uwch ar y ddau fesuriad hyn, mae eu lefelau hyder wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion/gwasanaethau ariannol yn is (dim ond 30% sy'n teimlo'n hyderus, o'i gymharu â 61% o bobl hŷn sydd wedi ymddeol). Ymdrinnir yn fanylach â phobl ifanc 18-24 a phobl hŷn sydd wedi ymddeol mewn adran yn nes ymlaen: Grwpiau targed penodol.

Pethau sy'n atal ac sy'n galluogi ymddygiadau allweddol

Tanlinellodd yr adrannau blaenorol ei bod yn ymddangos bod oedolion Cymru'n fwy ariannol-alluog wrth reoli o ddydd i ddydd nag wrth gynllunio at ddigwyddiadau bywyd. Hefyd, er bod rhai grwpiau penodol yn sgorio'n drawiadol is, nodwyd nad oedd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau uchaf ac isaf eu sgoriau mor fawr â hynny yn aml. Er y gall fod rhywfaint o fantais mewn targedu ymyriadau ar is-grwpiau sosio-ddemograffig penodol, mae hyn yn awgrymu bod yna faterion ehangach ar gyfer y boblogaeth ehangach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen inni edrych ar gwestiynau ehangach ynghylch yr hyn sy'n cynnig yr esboniad gorau dros ymddygiad mwy ariannol-alluog.

Yn ogystal â darparu map o ymddygiad problemus, mae'r arolwg yn ceisio cynnig dull diagnostig i ddod o hyd i bethau a allai atal neu alluogi ymddygiad ariannol-alluog. Mae'r adran nesaf yn edrych ar sawl un o'r pethau hyn, gan ddechrau â deall effaith incwm.

- Ydy cynilo'n gyson yn cael ei esbonio gan ffactorau heblaw incwm yn unig?
- Ydy'r swm sydd wedi'i gynilo gan bobl yn cael ei esbonio gan unrhyw beth heblaw incwm?
- Ydy'r ffactorau sy'n esbonio cynilo cyson yn wahanol i'r ffactorau sy'n esbonio cadw mwy o gynilion o'u cymharu ag incwm?
- Os gofynnwn i bobl sgorio'u hymagwedd at gyllideb y teulu, ai eu llwyddiant wrth dalu biliau a thaliadau fydd y dylanwad mwyafr?
- Pa ffactorau sy'n esbonio'r gwahaniaethau wrth ddefnyddio dyled ansicredig o'i chymharu ag incwm?
- Ydy diffyg rheolaeth dda ar arian o ddydd i ddydd yn atal pobl rhag cyflawni canlyniadau cadarnhaol eraill megis cynilo'n gyson?

Profwyd y damcaniaethau hyn drwy gyfuniad o Ddadansoddiad Sbardunau Allweddol (KDA) a Chanfod Cydadweithiau Awtomatig Chi-Sgwâr (CHAID). Gwnaed y gwaith dadansoddi ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, yn hytrach nag ar lefel Cymru. Er hynny, o gofio bod yr ymatebion a'r patrymau yn yr ymatebion mor debyg rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig, teimlwn ei bod yn dal yn dal yn ddefnyddiol edrych ar y dulliau atal a galluogi yma.


Wedyn cafodd canlyniadau'r KDA eu grwpio yn ôl o dan gydrannau'r peuoedd ymddygiad a'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol. Gall fod achos o blaid ail-wneud y dadansoddiad hwn gan ddefnyddio mesuriadau cyfansawdd o ymddygiad a Ffactorau Galluogrwydd Ariannol ar ôl i ragor o waith gael ei wneud i brofi a mireinio'r mesuriadau cyfansawdd.

Pa mor bwysig yw incwm?

Incwm yw'r unig newidyn y gellid disgwyl mai ef yw'r sbardun mwyaf ynglŷn ag agweddau ac ymddygiad ariannol-alluog. Mae'r mesuriadau cyfansawdd a drafodwyd yn gynt yn cynyddu mewn gwirionedd gydag incwm y teulu, fel y gwelir yn Siart 5 isod (sydd wedi'i seilio ar oedolion yng Nghymru yn unig). Ar sail hyn, gellir gweld:

- bod y sgoriau'n cynyddu gydag incwm y teulu;
- bod y cynnydd gydag incwm yn gymwys i'r sgoriau ymddygiad a'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol;
- mai 'paratoi ar gyfer digwyddiadau bywyd a'u rheoli' yw'r bau ymddygiad sy'n amrywio fwyaf o'i chymharu ag incwm, gyda'r graddiant serthaf rhwng y grwpiau uchaf ac isaf eu hincwm; a
- bod 'sgiliau a gwybodaeth' a 'hwylustod a hygyrchedd' ymysg sgoriau'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol fel pe baent yn amrywio'n bennaf rhwng teuluoedd isel eu hincwm a theuluoedd uchel eu hincwm.

Siart 6 Pa mor bwysig yw incwm?



Sail: Oedolion yng Nghymru (incwm isel n=351, Incwm canolig n=366, Incwm uchel n=78)

Mae hyn yn codi'r cwestiynau:

- oes yna berthynas linol syml ag incwm? Ydy galluogrwydd ariannol yn gwella yn ôl cyfradd sy'n gyson ag incwm y teulu?
- neu a yw'r berthynas ag incwm y teulu'n fwy cymhleth? Oes un neu ragor o bwyntiau tipio yn incwm y teulu lle mae galluogrwydd ariannol yn cynyddu ar gyflymder gwahanol ar ôl eu cyrraedd?

Y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn yw edrych ar rai o'r ymddygiadau isorweddol allweddol sy'n creu galluogrwydd ariannol. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi penderfynu hoelio sylw ar amllder cynilo a faint o gynilion sy'n cael eu cadw.

Ffocws ar gynilion

Cynilo'n gyson

Mae'r adran hon yn edrych ar yr esboniad gorau dros gynilo'n fwy cyson, ac yn benodol a yw cynilo'n fwy cyson yn cael ei esbonio gan ffactorau heblaw incwm yn unig.

Penderfynwyd bod hwn yn ymddygiad allweddol i ymchwilio iddo oherwydd y rhan y gall cynilion ei chwarae wrth ddarparu celc byrdymor bach ar gyfer costau annisgwyl neu ostyngiadau incwm annisgwyl sy'n gymharol fach.


Yn y dadansoddiad hwn rydym wedi canolbwyntio ar y boblogaeth o oedran gweithio am fod amgylchiadau pobl hŷn sydd wedi ymddeol yn debyg o fod yn wahanol. Yn benodol, maent yn llawer llai tebyg o fod â phlant dibynnol. Hefyd, mae yna duedd bod gan bobl hŷn sydd wedi ymddeol fwy o arian wedi'i gynilo na phobl o oedran gweithio. Mae hyn yn awgrymu, os yw popeth arall yn gyfartal, fod unrhyw fantais bosibl o ran gwytnwch drwy hybu cynilo mwy cyson yn debyg o fod yn llai i berson hŷn sydd wedi ymddeol nag i berson o oedran gweithio.

Mae amllder cynilo'n cael ei gasglu drwy ofyn i bobl ddweud pa mor aml y maent yn cynilo ar raddfa o bob mis i anaml/byth. Wrth ddadansoddi'r data rydym yn rhagdybio bod cynilo'n gyson yn fwy dymunol na chynilo'n anghyson neu beidio â chynilo o gwbl.

Roedd angen inni ystyried a oedd amllder cynilo'n dilyn perthynas linol ynteu a oedd yna bwyntiau tipio. I wneud hyn, trefnwyd model CHAID ar set ddata oedolion y Deyrnas Unedig er mwyn profi'n rhagdybiaeth mai incwm y teulu fyddai'r rhagfynegydd mwyaf ar gyfer amllder cynilo. Ac yn wir fe wnaeth canlyniadau'r dadansoddiad CHAID weld mai incwm y teulu yw rhagfynegydd mwyaf amllder cynilo. Er hynny llai eglur oedd y darlun a gafwyd o ran a oedd yna bwyntiau tipio clir rhwng gwahanol lefelau incwm.

Mae'r siart isod yn dangos sut mae amllder cynilo'n amrywio gydag incwm y teulu ymysg pobl yn y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru. Wnaeth y CHAID ddim datgelu grwpiau clir ar wahân o ran incwm yn y Deyrnas Unedig, ond o ran eglurder ac oherwydd y niferoedd llai yng Nghymru, rydym wedi dangos canlyniadau sydd wedi'u seilio ar dri grŵp incwm ar wahân:

- yr incwm isaf (islaw £13,500) – yn y grŵp hwn, dywedodd tri chwarter nad oeddent yn cynilo o gwbl (gan gynnwys cynilwyr anghyson);
- incwm canolig (£13,500 hyd at £34,999) – dywedodd dwy ran o bump eu bod yn cynilo bob mis, ond dywedodd chwarter mai anaml neu byth y bydden nhw'n cynilo; ac
- incwm uwch (£35,000 a rhagor) – yn y grŵp hwn, dywedodd hanner eu bod yn cynilo bob mis, er bod un rhan o bump yn dweud mai anaml neu byth y bydden nhw'n cynilo.

Siart 7 Amllder cynilo yn ôl incwm y teulu (oedran gweithio yng Nghymru yn unig)

Mae hyn yn awgrymu amcanion gwahanol ar gyfer ymyriadau a anelir at gynyddu cynilion ymysg grwpiau incwm gwahanol:

- yr incwm isaf – mae angen i'r ymyriadau hybu cynilion mwy cyson a chynilion mwy, ond mae angen mynd i'r afael hefyd â'r grŵp nad ydynt byth yn cynilo ar hyn o bryd;
- incwm canolig – gallai'r ymyriadau anelu at gynyddu'r symiau sy'n cael eu cynilo ymysg cynilwyr misol, sicrhau bod y rhai nad ydynt yn cynilo bob mis yn cynilo'n fwy cyson, ac annog y grŵp nad ydynt yn cynilo i ddechrau cynilo; ac
- incwm uwch – yma gallai'r ymyriadau ganolbwyntio'n bennaf ar annog y mwyafrif sy'n cynilo bob mis i gynilo symiau mwy o gynilion, gan fynd i'r afael â grŵp cymharol fach o gynilwyr anghyson a rhai nad ydynt yn cynilo, a gwella'r dewisiadau o blith y cynhyrchion a'u defnydd ymysg y rhai sydd wrthi'n cynilo'n gyson.

Beth arall sy'n bwysig heblaw incwm?

Er hynny, nid popeth sy'n gallu cael ei esbonio ar sail incwm. Ar un ystyr, astudio'r hyn na all incwm ei esbonio yw holl faes ymchwil mewn galluogrwydd ariannol, hynny yw pam mae rhai teuluoedd isel eu hincwm yn ymdopi'n effeithiol iawn o ddydd i ddydd ond bod rhai teuluoedd uchel eu hincwm yn methu gwneud. Mae'r niferoedd bach yng Nghymru yn ein hatal rhag dadansoddi'n fanwl fel hyn ac felly mae'r canlyniadau yn yr adran hon wedi'i seilio ar holl oedolion y Deyrnas Unedig.

Wedi edrych ar rôl incwm, y cam nesaf yw ystyried pa ffactorau eraill sy'n cynnig yr esboniad gorau am amrywiadau mewn cynilion. Roeddem yn awyddus i ateb dau gwestiwn:

- Heblaw incwm, pa un neu ddau o ffactorau demograffig yw'r rhagfynegwyr gorau ar gyfer amllder cynilo?
- Beth yw pwysigrwydd cymharol yr holl gydrannau gwahanol mewn galluogrwydd ariannol: ymddygiadau, sgiliau, gwybodaeth, agweddau, cymhellion, hwylustod a hygyrchedd?

Ffactorau Galluogrwydd Ariannol fel ffactorau sy'n atal/galluogi cynilo cyson

Wedi canfod pwysigrwydd incwm, y cymhwyster addysgol uchaf a chyfansoddiad y teulu, mae angen hefyd inni ddeall i ba raddau y gallai ffactorau eraill atal neu alluogi ymddygiad ariannol-alluog megis cynilo.

Mae Tabl 10 yn dangos pwysigrwydd cymharol amryw o gydrannau galluogrwydd ariannol.³³

³³ Ymchwiliwyd i hyn drwy wneud Dadansoddiad Sbardunau Allweddol (KDA) ar gyfer newidyn deilliant 'amllder cynilo'. Cafodd cwestiynau eraill yr arolwg ynghylch ymddygiadau, sgiliau, gwybodaeth, agweddau, cymhellion, hwylustod a hygyrchedd eu cynnwys yn y model.

Tabl 10 Dadansoddiad o Sbardunau Allweddol amllder cynilion

Grwpiau topigau	Pwysigrwydd atchweliad	Newidyn unigol – a ddangosir os yw'n fwy na 2%
Rhesymau dros gynilo/bod â chynilion	16%	Rhesymau dros gynilo <ul style="list-style-type: none"> ■ Talu am gostau, pryniadau neu ddigwyddiadau arfaethedig ■ Rhag ofn costau/pryniadau annisgwyl ■ Ar gyfer diwrnod glawog yn gyffredinol ■ Rhag ofn i incwm newid Dim ond at ddibenion penodol rwy'n cynilo
Nodau a chynlluniau	10%	A ydynt wedi gosod nodau ariannol am y pum mlynedd nesaf Graddfa'r cynlluniau ar gyfer nodau ariannol
Agweddau/ cymhellion – agweddau at y dyfodol	8%	O ran arian mae'n well gen i fyw er mwyn heddiw yn hytrach na chynllunio ar gyfer yfory - anghytuno Pwysig cynilo arian ar gyfer diwrnod glawog Pwysig gosod arian o'r neilltu ar gyfer eich ymddeoliad
Agweddau/ cymhellion – Hyder a hunan-effeithiolrwydd	7%	Hyder wrth reoli arian Anghytuno â'r gosodiad – Fydd dim byd a wnaif yn gwneud llawer o wahaniaeth i'm sefyllfa ariannol Anghytuno â'r gosodiad – Mae meddwl am fy sefyllfa ariannol yn gwneud imi bryderu
Agweddau/ cymhellion – cymryd cyfrifoldeb	3%	Trafod materion ariannol y teulu'n agored gydag unrhyw un Pwysig cadw golwg ar incwm a gwariant
Talu i mewn i bensiwn	5%	Talu i mewn i bensiwn/pensiynau ar hyn o bryd
Cymryd rheolaeth	10%	Meddwl am arian yn nhermau 'potiau' wedi'u neilltuo ar gyfer pethau gwahanol Llwyddo i dalu biliau ac ymrwymadau - heb anhawster, ei chael yn anodd, yn syrthio/wedi syrthio ar ei hól hi Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant – pa mor dda maent yn meddwl ei bod yn gweithio Pa mor aml maent fel rheol yn gwirio faint sydd yn y cyfrif
Hwylustod/ hygyrchedd	2%	Defnyddio'r rhyngrwyd – oriau a dreuliwyd wrthi yn yr wythnos diwethaf Hyder wrth wneud penderfyniadau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol
Sgiliau/gwybodaeth	2%	Nifer yr atebion cywir i 3 chwestiwn cwis
Eraill	36%	Sut y byddent yn talu bil annisgwyl o £300 A oes ganddynt gyfrif cynilo Swm y cynilion o'i gymharu â'r incwm Cyrhaeddiad addysgol uchaf A oes ganddynt 'ormod o ddyledion' A oes ganddynt amhariad, salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol ers amser hir Eraill (bob un o dan 2%)

Mae 35% o'r amrywiad yn amllder cynilion yn cael ei esbonio gan y model.³⁴

³⁴ Roedd i'r model R2 o 35%, sy'n golygu ei fod yn esbonio 35% o'r amrywiad yn amllder cynilo. O ran y math hwn o newidyn deilliant, mae hyn o fewn ffiniau'r hyn sy'n fesur rhesymol o esboniad.

Gwelodd y dadansoddiad fod cysylltiad cryf rhwng cynilion mwy cyson a'r canlynol:

- bod â rhesymau penodol dros gynilo (yn arbennig yn y tymor byr ac yn gadarnhaol);
- bod â nodau a chynlluniau; ac
- agweddau sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

Gwelwyd bod peidio ag arddel rheolaeth dros faterion ariannol o ddydd i ddydd yn atal cynilo cyson.

Ar sail y mesuriadau yn yr arolwg, roedd yn ymddangos bod y ffactorau a ganlyn yn gymharol ddibwys o ran y boblogaeth o oedran gweithio yn ei chrynswth:

- sgiliau a gwybodaeth; a
- hwylustod a hygyrchedd.

O edrych ar y tabl mae'n glir hefyd nad yw amllder cynilo yn rhywbeth a all gael ei esbonio dim ond ar sail ymddygiadau eraill nac yn bennaf ar sail sgiliau, gwybodaeth, agweddau, cymhellion neu hwylustod a hygyrchedd. Yn hytrach mae'n ymddangos mai cyfuniad o bob un o'r uchod ydyw.

Edrychwyd ar yr un dadansoddiad ar gyfer grwpiau incwm gwahanol ymysg y boblogaeth o oedran gweithio. Er bod y tebygrwydd o gynilo'n gyson yn codi gydag oedran, gwelodd y dadansoddiad oes newid amlwg yn y pethau sy'n galluogi neu'n atal hyn (o anwybyddu'r incwm ei hun).


Cynilion o'u cymharu ag incwm

Roeddem yn awyddus hefyd i ganfod pwysigrwydd cymharol gwahanol gydrannau galluogrwydd ariannol wrth esbonio faint o gynilion y mae pobl yn ei gadw. Roeddem yn awyddus yn arbennig i weld ai'r un ffactorau a roddai'r esboniad gorau dros y tebygrwydd o gynilo'n gyson a'r tebygrwydd o gadw symiau mawr o gynilion.

Er mwyn caniatáu rhywfaint ar gyfer effaith incwm, cafodd swm y cynilion y dywedai'r ymatebwyr eu bod yn ei gadw ei drosi'n nifer o fisoedd o incwm teuluol. Roedd hynny'n golygu hefyd fod modd cysylltu'r dadansoddiad â'r safbwynt mewn cyngor y dylai pobl gadw cronfa argyfwng o dri mis o incwm. Mae cadw'r hyn sy'n cyfateb i dri mis o incwm hefyd yn un o'r newidynnau sy'n ffurfio'r gydran gwytnwch mewn 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'.

Unwaith eto, rydym wedi canolbwyntio ar y boblogaeth o oedran gweithio yn unig, yn rhannol o ran cysondeb â'r drafodaeth flaenorol ar amllder cynilo, ond hefyd mae pobl hyn sydd wedi ymddeol yn llawer tebycach o fod â chynilion sy'n cyfateb i dri mis o incwm: mae hynny'n wir am 50% o bobl hyn sydd wedi ymddeol yng Nghymru o'i gymharu â 25% o bobl o oedran gweithio yng Nghymru.

Ar sail Siart 7 mae'n glir bod nifer y misoedd o incwm y mae pobl wedi'i gynilo yn gysylltiedig â'u hincwm teuluol. Ond efallai fod llai o amrywio yn ôl incwm nag yn achos amllder cynilo.

Siart 8 Cymhareb Cynilion yn ôl Incwm y teulu (Oedran gweithio yn unig yng Nghymru)**A yw cynilion mwy yn cael eu hesbonio gan y ffactorau a esboniodd gynilo'n fwy cyson?**

Mae'r tabl canlynol, sydd unwaith eto wedi'i seilio ar y Dadansoddiad Sbardunau Allweddol a wnaed ymysg oedolion y Deyrnas Unedig, yn dangos:

- bod cadw mwy o gynilion o'i gymharu ag incwm fel pe bai'n cael ei esbonio'n fwyaf gan resymau penodol dros gynilo; sy'n cynnwys cynilo ar gyfer diwrnod glawog, cynilo ar gyfer yr annisgwyl a chynilo ar gyfer ymddeol (heb fod mewn pensiwn);
- bod diffyg rheolaeth ar arian o ddydd i ddydd yn ataliad posibl yn achos cynilo cyson a chadw swm mwy o gynilion o'i gymharu ag incwm; ac
- er bod rhai o'r ffactorau pwysig yr un fath, mai dyma'r prif wahaniaethau:
 - roedd cynilo'n fwy cyson yn gysylltiedig ag agweddau'n canolbwyntio ar y dyfodol, ond mae'n ymddangos bod agweddau at y dyfodol yn llawer llai pwysig o ran cadw swm mwy o gynilion o'i gymharu ag incwm; ac
 - yn yr un modd roedd cysylltiad rhwng nodau a chynlluniau ariannol a'r tebygrwydd o gynilo'n gyson, ond mae'n ymddangos bod hynny'n llai pwysig o ran cadw swm mwy o gynilion.

Tabl 11 Dadansoddiad o Sbardunau Allweddol y gymhareb cynilion i incwm

Grwpiau topigau	Pwysigrwydd atchweliad	Newidyn unigol – a ddangosir os yw'n fwy na 2%
Rhesymau dros gynilo/ bod â chynilion	25%	Ar gyfer ymddeol (heb gynnwys talu i mewn i bensiwn) Ar gyfer diwrnod glawog yn gyffredinol (Rhesymau dros gynilo) Rhag ofn costau/pryniadau annisgwyl Talu am gostau, pryniadau neu ddigwyddiadau arfaethedig Rhag ofn i incwm newid Dim ond at ddibenion penodol rwy'n cynilo – anghytuno Mae'n gas gen i fenthyg – byddai'n llawer gwell gen i gynilo ymlaen llaw
Rheoli arian o ddydd i ddydd	12%	Llwyddo i dalu biliau/ymrwymadau – heb anhawster, ei chael yn anodd, yn syrthio/ wedi syrthio ar ei hôl hi Pa mor aml maent fel rheol yn gwirio faint sydd yn y cyfrif Ddim yn cylchdroi balans cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor -costus Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant – pa mor dda maent yn meddwl ei bod yn gweithio Sut yn union maent yn honni eu bod yn gwybod balans y cyfrif Cymhareb dyled i gyflog
Agweddau/cymhellion – Hyder a hunan-effeithiolrwydd	6%	Mae meddwl am fy sefyllfa ariannol yn gwneud imi bryderu – anghytuno Hyder wrth reoli arian
Agweddau/cymhellion – agweddau at y dyfodol	4%	O ran arian mae'n well gen i fyw er mwyn heddiw yn hytrach na chynllunio ar gyfer yfory - anghytuno Pwysig gosod arian o'r neilltu ar gyfer eich ymddeoliad
Agweddau/cymhellion – cymryd cyfrifoldeb	2%	Rwy'n rhy brysur i roi trefn ar fy materion ariannol ar hyn o bryd – anghytuno
Sgiliau/gwybodaeth	4%	Nifer yr atebion cywir i 3 chwestiwn cwis
Amllder cynilo	3%	Amllder cynilo
Hwylustod a hygyrchedd	3%	Defnyddio'r rhyngwrwyd – oriau a dreuliwyd wrthi yn yr wythnos diwethaf Hyder wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion neu wasanaethau ariannol
Nodau a chynlluniau	2%	I ba raddau mae ganddynt gynlluniau ar gyfer nodau ariannol
Eraill	40%	A oes ganddynt gyfrif cynilo Credud bod y cynilion yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer pobl fel fi Sut y byddent yn talu bil annisgwyl o £300 Credud bod y benthychiadau yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer pobl fel fi A oes ganddynt 'ormod o ddyledion' Ethnigrwydd Wedi gofyn am wybodaeth/cyngor ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf Darllen tudalennau cyllid y rheolaidd yn y papurau neu ar-lein Plant yn y teulu Eraill (bob un o dan 2%)

Mae 42% o'r amrywiad yn y gymhareb cynilion incwm yn cael ei esbonio gan y model.

Mae sawl dehongliad posibl ynglŷn â goblygiadau hyn ar gyfer ymarferwyr

Ffocws ar y dyfodol a gosod nodau:

Mae'n eglur bod rheswm dros gynilo'n bwysig a'i fod yn rhoi cymhelliant i gynilwyr ildio'r manteision sy'n dod drwy brynu a defnyddio yn y fan a'r lle. Ond, mae amrywiaeth o gymhellion ar gael ac mae eu pwysigrwydd cymharol yn amrywio gydag amllder y cynilo a chyda gwerth y cynilion sy'n crynhoi, o'u cymharu ag incwm. Mae nod ar gyfer eich cynilion, gan ganolbwyntio'n fwy ar y dyfodol, fel pe baent yn hwb i bobl ddechrau cynilo, hyd yn oed er mwyn prynu a defnyddio yn y dyfodol. Gan hynny, fe allai fod yn fuddiol i'r ymyriadau hoelio sylw ar osod nodau, gan gydnabod y gall fod ar y rhai sy'n llai llwyddiannus wrth reoli eu harian angen cymorth ymarferol i'w helpu i gyrraedd y nod. Pan fydd pobl yn dechrau cynilo'n gyson, yr her wedyn yw eu hamog i droi hyn yn arfer a chynio er mwyn cynilo, yn hytrach nag er mwyn cyrraedd nod a gwario'r cynilion sydd wedi'u crynhoi. Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod y rhai sydd wedi cynilo'r symiau mwyaf yn llai tebyg o fod yn cynilo at ddiben penodol, ac yn cynilo yn hytrach ar gyfer ymddeol neu at ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol.

Cynilo ar gyfer nod o'i gyferbynnu â chynilo ar gyfer diwrnod glawog:

Gellid credu bod y dadansoddiad yn ategu'r farn bod yna wahaniaeth pwysig rhwng cynilo ar gyfer nod arfaethedig penodol, yn y tymor byr yn aml, a chynilo at y tymor hirach neu ar gyfer digwyddiadau neu gostau llai sicr. Mewn geiriau eraill, ceir gwahaniaeth rhwng cynilwyr cyfryngol a chynilwyr 'diwrnod glawog'³⁵. Mae hyn yn awgrymu bod o leiaf tair ymagwedd gynhyrchiol bosibl at ymyriadau cynilion:

- annog pobl nad ydynt yn cynilo'n gyson i ddechrau gwneud hynny, o bosibl drwy ddefnyddio nodau;
- annog pobl sy'n cynilo'n gyson ar hyn o bryd tuag at nod i droi'n gynilwyr 'diwrnod glawog' drwy barhau i gynilo ar ôl cyrraedd y nod neu drwy gynyddu'r swm sy'n cael ei gynilo bob mis; a
- chynyddu'r swm sy'n cael ei gynilo gan gynilwyr cyson.

Hefyd, dylem nodi ei bod yn bosibl ein bod, drwy seilio'n mesuriad ymddygiadol ar gyfer cynilo'n gyson ar bobl sy'n cynilo bob mis neu bron bob mis, yn tangynrychioli cynilo cyson. Ar unrhyw adeg benodol, mae'n bosibl nad yw rhai cynilwyr cyson yn cynilo a hynny am eu bod rhwng nodau, hynny yw maent wedi prynu'r eitem arfaethedig yr oeddent yn cynilo ar ei chyfer a heb ddechrau cynilo eto ar gyfer eu nod nesaf. I ryw raddau mae data 2015 yn ategu'r farn hon, gan mai dim ond 25% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru sy'n dweud mai anaml iawn y maent yn cynilo neu byth, a bod 75% yn dweud eu bod yn cynilo bob mis, bron bob mis neu ambell fis.

Ffocws ar fenthycia a dyledion

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg amcangyfrif cyfanswm eu dyledion ansicredig. Ar sail hyn cyfrifwyd cymhareb dyled i incwm er mwyn inni ystyried a oedd y rhai â'r cymarebau dyled i incwm uchaf yn amlygu ymddygiadau, sgiliau, gwybodaeth, agweddau, cymhellion neu hwylustod a hygyrchedd gwahanol. Unwaith eto, defnyddiwyd Dadansoddiad Sbardunau Allweddol, a hynny ymysg oedolion yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Mae'r tabl yn dangos canlyniadau'r dadansoddiad. O ran symlrwydd, dangosir llai o'r newidynnau unigol nag yn y tablau blaenorol.

Y canfyddiad allweddol yn hyn o beth, nad yw'n syndod o bosibl, yw ei bod yn bosibl nad oes un esboniad clir dros gymarebau dyled i incwm uwch. Mae'r ffactorau sydd â'r sgoriau uchaf i gyd yn ymwneud yn benodol â benthycia neu ddyled, ac yn esbonio 28% o'r amrywio yn y gymhareb dyled i incwm. Mae hyn yn adlewyrchu ymdeimlad mai'r hyn yr ydym yn ei weld yma yw llawer o ganlyniadau dyledion ansicredig mawr a llawer llai o ran esboniad dros fod â dyledion mawr.

Mae pobl sydd â nodau neu gynlluniau ariannol yn debyg o fod mewn llai o ddyled o'i chymharu â'u hincwm, ond nid yw'n glir i ba gyfeiriad y mae'r achosiaeth yn llifo yn y berthynas hon.

³⁵ Saving in lower-income households: A review of the evidence. Elaine Kempson ac Andrea Finney, Canolfan Ymchwil Cyllid Personol Prifysgol Bryste, Mehefin2009 <http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/migrated/documents/pfrc0909.pdf>

Tabl 12 Dadansoddiad o Sbardunau Allweddol y gymhareb dyled i incwm

Grwpiau topigau	Pwysigrwydd atchweliad	Newidyn unigol – a ddangosir os yw'n fwy na 2%
Yn ymwneud â benthychiadau/dyled yn benodol	28%	Benthyca mwy na'r cyfartaledd – 11% Cylchdroi balans cardiau credyd/defnyddio credyd byrdymor costus – 6% Mae'n gas gen i fenthyg – byddai'n llawer gwell gen i gynilo ymlaen llaw – 4% Mae dyled yn faich trwm – 2% Wedi methu tri taliad neu fwy – 3% Un o'r ddau flaenorol – 2%
Nodau a chynlluniau	12%	I ba raddau mae ganddynt gynlluniau ar gyfer nodau ariannol – cydberthyniad negyddol
Agweddau/cymhellion	12%	
Rhesymau dros gynilo/bod â chynilion	5%	
Rheoli arian o ddydd i ddydd	9%	
Cynyddu incwm i'r eithaf	6%	Wedi gwirio cyflenwyr/tariffau
Sgiliau/gwybodaeth	2%	
Hwylustod a hygyrchedd	8%	
Eraill	28%	

Mae 31% o'r amrywiad yn y gymhareb dyled i incwm yn cael ei esbonio gan y model

Mewn rhai ystyron mae'r darn penodol hwn o ddadansoddi'n atgyfnerthu'r problemau sy'n gysylltiedig â symiau mwy o ddyled ansicredig o'i chymharu ag incwm. Mae angen rhagor o waith i edrych ar ddata 2015 i weld a yw'n cadarnhau'r damcaniaethau a oedd eisoes yn bod ynghylch ysgogiadau a ffactorau isorweddol.

Ffocws ar reoli arian

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio pa mor dda yr oedd eu hymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant y teulu'n gweithio, gan ddefnyddio graddfa lle mae 0 yn golygu ddim o gwbl a 10 yn golygu yn dda iawn.

Roedd sgôr hunan-gofnodedig uwch ar gyfer techneg gyllidebu yn gysylltiedig â mwy o'r ymddygiadau 'da' eraill nag agweddau cadarnhaol. Yn benodol, mae'r canlynol yn galluogi pobl:

- bod â nodau neu gynlluniau ariannol; ac
- i raddau llai, agweddau cadarnhaol megis:
 - Hyder a hunan-effeithiolrwydd; a
 - chymryd cyfrifoldeb dros eich arian.

Mae diffyg rheolaeth dros faterion ariannol o ddydd i ddydd yn ataliad. Yn benodol roedd yn ymddangos bod hwylustod neu anhawster o ran talu biliau yn ffactor o bwys, ond fe welsom hefyd fod pobl sy'n meddwl am eu harian yn nhermau 'potiau' at ddibenion gwahanol yn tueddu i roi sgôr fwy cadarnhaol i'w hymagwedd hwy.

Mae'r arolwg yn dangos nad yw sgiliau, na gwybodaeth, na hwylustod a hygyrchedd yn ffactorau mawr ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio yn ei chrynswth.

Fel y gellid disgwyl, roedd pobl ar incwm uwch at ei gilydd yn tueddu i roi sgôr uwch iddynt eu hunain, sydd ynddo'i hun yn gysylltiedig o bosibl â'r tebygrwydd uwch eu bod yn llwyddo i dalu biliau ac ymrwymadau heb anhawster. Ond doedd y ffactorau sy'n gysylltiedig â sgôr uwch ddim yn edrych yn arbennig o wahanol pan wnaethom yr un dadansoddiad ar gyfer grwpiau incwm ar wahân.

Grwpiau targed penodol

Fel y nodwyd yn gynharach, daeth sawl is-grŵp i'r fei fel rhai gwannach ar draws un neu ragor o beuoedd ymddygiad. Mewn rhai achosion, yr un grwpiau sydd hefyd yn sgorio'n isel mewn rhai agweddau ar y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol ('sgiliau a gwybodaeth', 'agweddau a chymhellion', 'hwylustod a hygyrchedd'). Mae'r adran hon yn edrych ar bob un o'r grwpiau hyn yn eu tro a, lle bo modd, yn awgrymu goblygiadau ar gyfer cynllunio a chyflawni ymyriadau wedi'u targedu arnynt.

Oedolion ifanc

Mae'r adran a ganlyn yn trafod sut roedd ymddygiadau oedolion ifanc (pobl ifanc 18-24 oed) yng Nghymru yn cymharu ag ymddygiadau'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru. Mae Tabl 13 yn yr atodiadau'n dangos amrediad llawn y sgoriau i'r grwpiau hyn ar draws y peuoedd ymddygiad.

Mae oedolion ifanc yn gyffredinol yn sgorio llai na'r cyfartaledd oedran gweithio o ran y tair pau ymddygiad.

'Rheoli arian o ddydd i ddydd' – mae sgoriau ymddygiad cyffredinol oedolion ifanc (52%) yn is na sgoriau'r boblogaeth o oeran gwaith (57%).

O fewn hyn ceir materion penodol ar gyfer oedolion ifanc ynglŷn â **chyllidebu a defnyddio credyd**.

Cyllidebu – o'u cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio, mae oedolion ifanc yn llai tebyg o gredu bod eu hymagwedd at reoli incwm a gwariant yn dda iawn. Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr sgorio pa mor dda roedd eu hymagwedd yn gweithio, ar raddfa lle mae 0 yn golygu nad yw'n gweithio'n dda o gwbl a 10 yn golygu yn dda iawn. Rhoddodd ychydig dros ddwy ran o bump (43%) o'r oedolion ifanc sgôr i'w hymagwedd nhw o 8-10/10, o'i gymharu â hanner (51%) y boblogaeth o oedran gweithio. Tebyg yw patrwm y Deyrnas Unedig.

Ar y llaw arall, mae oedolion ifanc yn sgorio ychydig yn uwch nag oedolion o Oedran gweithio o ran:

- **cadw golwg** – mae 67% o oedolion ifanc yn honni eu bod yn gwybod balans eu cyfrif cyfredol hyd at o fewn £50 o'i gymharu â 60% o oedolion o oedran gweithio; a
- **llwyddo i dalu heb anhawster** – mae 51% o oedolion ifanc yn dweud eu bod yn talu biliau ac ymrwymadau credyd heb anhawster o'i gymharu â 46% o oedolion o oedran gweithio).

Defnyddio credyd – mae oedolion ifanc yng Nghymru'n sgorio ychydig yn is nag oedolion o oedran gweithio yn y bau 'defnyddio credyd yn gall' (33% o oedolion ifanc, 41% o oedolion o oedran gweithio). Yn benodol, mae oedolion ifanc ychydig yn debycach o fod â dyled ansicredig sy'n werth 1 mis neu fwy o incwm y teulu (roedd gan 39% gymhareb dyled i incwm a oedd yn hafal i fwy nag 1 mis o incwm teuluol neu'n fwy na hynny, o'i gymharu â 37%). Er hynny, roedd pobl ifanc ychydig yn llai tebyg o ddefnyddio credyd byrdymor costus (e.e. benthychiadau diwrnod cyfog) neu o gylchdroi balansau ar gardiau credyd (dywedodd 25% o oedolion ifanc eu bod yn gwneud y naill neu'r llall o'r rhain, o'i gymharu â 29% o oedolion o oedran gweithio). Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu canlyniadau'r Deyrnas Unedig.

Efallai nad yw'n synod bod **sgoriau oedolion ifanc yn is na sgoriau oedolion o oedran gweithio ar bau ymddygiad 'paratoi ar gyfer digwyddiadau bywyd a'u rheoli'**. Er hynny, mae'r gwahaniaethau mwyaf yn ymwneud â'r gyfran is o oedolion ifanc sy'n gwneud cyfraniadau pensiwn ar hyn o bryd neu yn flaenorol (18% o oedolion ifanc, o'i gymharu â 51% o oedolion o oedran gweithio) neu yswiriant bywyd (19% o oedolion ifanc, o'i gymharu â 47% o oedolion o oedran gweithio). O gofio'u cyfnod mewn bywyd, efallai nad yw'r ffigurau o Arolwg 2015 yn ofid ac y dylai'r ymyriadau yn hyn o beth ganolbwytio ar hybu gwell paratodau at ddigwyddiadau bywyd ymysg oedolion ifanc wrth iddynt ddechrau gweithio, symud i'w cartrefi eu hunain, a dechrau teulu.

Cafwyd patrymau ac argymhellion tebyg ar gyfer sampl y Deyrnas Unedig.

Mae'n drawiadol bod oedolion ifanc yng Nghymru'n debycach nag oedolion o oedran gweithio bod ganddynt nodau ariannol (79% oedolion ifanc, 61% oedolion o oedran gweithio). Er bod cyfran yr oedolion ifanc sydd â chynlluniau i gyrraedd y nodau hyn yn llawer is (43%), mae'n dal yn uwch nag ymysg oedolion o oedran gweithio (33%). Byrdymor oedd llawer o'r nodau ariannol a grybwyllwyd gan oedolion ifanc, megis cynilo ar gyfer gwyliau neu i brynu car, gan adlewyrchu eu cyfnod mewn bywyd. Gallai ymyriadau wedi'u targedu ar droi cynilwyr ar gyfer nodau yn gynilwyr 'diwrnod glawog' fod yn arbennig o berthnasol yn achos oedolion ifanc wrth iddynt symud i mewn i waith a magu teulu.

O ran Ffactorau Galluogrwydd Ariannol, mae oedolion ifanc yn sgorio ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer oedran gweithio yn y canlynol:

- hyder wrth reoli arian (41% oedolion ifanc, o'i gymharu â 47% o oedolion o oedran gweithio);
- hyder wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion a gwasanaethau ariannol (30% oedolion ifanc, o'i gymharu â 41% o oedolion o oedran gweithio); a
- meddwl ei bod yn bwysig *iawn* chwilio am fargeinion er mwyn i'w harian fynd ymhellach (41% oedolion ifanc, o'i gymharu â 50% oedolion o oedran gweithio) sy'n cyd-fynd a'r ffaith eu bod hefyd yn llai tebyg o gynyddu incwm i'r eithaf (75% o oedolion ifanc sydd wedi edrych ar dariffau neu gyflenwyr gwahanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu ag 84% o oedolion o oedran gweithio).

Mae Tabl 14 yn yr atodiadau yn dangos yr amrediad llawn o sgoriau oedolion ifanc (o'i gyferbynnu ag oedolion o oedran gweithio) ar gyfer y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol.

Y goblygiadau ar gyfer ymyriadau ymysg oedolion ifanc

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gall fod achos o blaid ymyriadau sydd wedi'u targedu ar oedolion ifanc i fynd i'r afael â diffyg hyder wrth reoli arian, cyllidebu, ac ynghylch penderfyniadau ariannol. Mae'n bosibl hefyd yr hoffai'r ymyriadau hybu mwy o chwilio am fargeinion.

Gallai'r ymyriadau fynd ati hefyd i ddefnyddio'r tebygrwydd, uwch na'r cyfartaledd, y bydd oedolion ifanc yn trafod arian yn agored (er bod hanner yr oedolion ifanc yn dweud nad ydynt yn trafod arian yn agored gyda neb). Mae'r ffaith bod bron pob oedolyn ifanc yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn gyfle ar gyfer FinTech, yn enwedig o gofio ein bod wedi gweld bod gan 77% o oedolion ifanc Cymru ffôn sy'n cysylltu â'r rhyngwrwyd.

Mae ymchwil ansoddol flaenorol gydag oedolion ifanc³⁶ yn awgrymu y gall dod o hyd i'r negesydd cywir fod yn rhan bwysig o gynllunio a chyflawni ymyriadau llwyddiannus.

Pobl hŷn sydd wedi ymddeol

O'u cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio, mae pobl hŷn sydd wedi ymddeol yng Nghymru yn sgorio'n dda ar 'reoli arian yn dda o ddydd i ddydd' a 'delio ag anawsterau ariannol'. Mae ganddynt hefyd fwy o wytnwch drwy gyfrwng cynilion (gweler Tabl 15 yn yr atodiadau i gael amrediad llawn y sgoriau ar draws y peuoedd ymddygiad). Er hynny, ceir lleiafrif bach o bobl hŷn sydd wedi ymddeol yng Nghymru sy'n byw mewn cartref a berchnogir â morgais o hyd (11%).

Mwy cymysg yw'r darlun ar gyfer 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli' – ac mae pobl hŷn sydd wedi ymddeol yn llai tebyg nag oedolion o oedran gweithio o fod â nodau a chynlluniau penodol – ond o gofio'u cyfnod mewn bywyd mae'n bosibl bod hyn yn ddealladwy. Efallai fod hyn yn awgrymu y gallai'r cwestiynau yn y bau hon yn yr arolwg nesaf gael eu teilwra'n fwy penodol ar gyfer pobl hŷn sydd wedi ymddeol.

Mae cynllunio ar gyfer cost gofal hirdymor yn gymharol brin ymysg pobl hŷn sydd wedi ymddeol ac ymysg oedolion o oedran gweithio sy'n 50+ oed. Dywedodd un rhan o bump o'r rhai dros 50 oed fod ganddynt gynllun o ran sut y byddant yn talu am unrhyw ofal hirdymor y bydd arnynt ei angen yn eu henaint, a dim ond 12% a ddisgrifiodd hyn fel cynllun penodol iawn/bras. Hefyd, mae'n werth nodi nad yw'n trothwy ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr â chynllunio wedi'i osod ar lefel arbennig o uchel: bernid bod gan yr ymatebwyr ryw fath o gynllun hyd yn oed pe na bai'n fwy na dweud "Mae gen i syniad bras iawn o'r hyn y mae angen imi ei wneud".

Roedd patrymau canlyniadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer y peuoedd ymddygiad yn debyg iawn.

Mae maint yr is-grwpiau yn y boblogaeth o bobl hŷn sydd wedi ymddeol yng Nghymru'n rhy fach i'w dadansoddi'n fanwl, ond cafodd y patrymau a ganlyn eu gweld yn y Deyrnas Unedig ac maent yn bur gyson yng Nghymru:

- nid yw sgoriau ymddygiad pobl 75+ yn arbennig o wahanol i gyfartaledd oedran ymddeol. Ond fel y nodir isod, mae yna fwy o wahaniaethau o ran Ffactorau Galluogrwydd Ariannol; ac
- ymysg pobl hŷn sydd wedi ymddeol, ceir gwahaniaethau amlwg o ran ymddygiad rhwng teuluoedd incwm isel (islaw £17,500) a theuluoedd incwm canolig/uwch, gyda theuluoedd is eu hincwm yn llai tebyg o sgorio'n dda ar y ddwy bau 'reoli arian yn dda o ddydd i ddydd' a 'paratoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'.

³⁶ Mae'n Amser i Siarad: Pobl Ifanc ac Edifeirwch Ariannol

https://53b86a9de6dd4673612f-c36ff983a9cc042683f46b699207946d.ssl.cf3.rackcdn.com/mas_money_regrets_online.pdf

Mae Tabl 16 yn yr atodiadau yn dangos amrediad llawn y sgoriau ar draws y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol ar gyfer pobl hŷn sydd wedi ymddeol gan eu cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio, ond mae ambell bwynt allweddol wedi'i nodi isod:

- at ei gilydd mae gan bobl hŷn sydd wedi ymddeol agweddau mwy cadarnhaol at arian, gan deimlo'n llai pryderus a mwy hyderus wrth reoli arian. Er hynny, maent yn ymddangos yn llai tebyg o deimlo bod ganddynt rym gan eu bod yn llai tebyg o anghytuno 'na fydd dim byd a wnânt yn gwneud llawer o wahaniaeth i'w sefyllfa ariannol';
- mae pobl hŷn yn debycach na'r boblogaeth o oedran gweithio o deimlo'n hyderus iawn wrth wneud penderfyniadau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol (dywedodd 61% eu bod, o'i gymharu â 41% o'r boblogaeth o oedran gweithio). Mae angen dadansoddi ymhellach i ganfod a yw data 2015 yn awgrymu bod yma berygl o or-hyder;
- dywedodd dau draean (66%) o bobl hŷn sydd wedi ymddeol yng Nghymru eu bod wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn ystod y saith diwrnod diwethaf, ac mae hyn yn llawer is na'r defnydd ymysg y boblogaeth o oedran gweithio sydd bron yn gwbl gyffredin (94%). Hefyd, roedd pobl hŷn yn llai tebyg o ddweud y byddent yn fodlon defnyddio'r gwasanaethau bancio ar-lein, a all ei gwneud yn anos iddynt reoli eu harian yn effeithiol;
- er bod sgiliau a gwybodaeth yn cynyddu gydag oedran, maent yn dirywio yn y grŵp oedran 75+ (y grŵp hwn sydd â'r sgôr isaf o bob grŵp oedran ar gyfer 'sgiliau a gwybodaeth'); ac
- mae pobl hŷn yn tueddu i sgorio'n is ar y mwyafrif o'r Ffactorau Galluogrwydd Ariannol (yn ogystal a'r peuoedd ymddygiad, fel y trafodwyd uchod) os ydynt mewn teulu isel ei incwm (islaw £17,500) na'r rhai sydd ag incwm uwch. Yn y bau 'hwylustod a hygyrchedd' y ceir y gwahaniaeth mwyaf.

Gwelwyd patrymau tebyg yn y Deyrnas Unedig.

Y goblygiadau ar gyfer pobl hŷn sydd wedi ymddeol

Gall fod gan bobl 75+ oed anghenion penodol o ran sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno iddynt. Gall fod cysylltiad rhwng hyn a'r angen i ddeall profiadau cwsmeriaid o safbwynt defnyddwyr sy'n agored i niwed, fel y'i hamlygwyd mewn ymchwiliad yn ddiweddar i'r FCA.³⁷

Materion y rhyngwrwyd a hygyrchedd – mae cysylltiad â'r rhyngwrwyd a pharodrwydd i ddefnyddio'r rhyngwrwyd at ddibenion ariannol fel bancio gryn dipyn yn is ymysg pobl hŷn sydd wedi ymddeol ac yn arbennig y rhai sy'n 75+ oed ac ar incwm isel. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dadansoddiadau ar y data yn y dyfodol yn edrych ar faterion hygyrchedd ar sail y math o anheddiad er mwyn darganfod, er enghraifft, a yw'r data'n awgrymu y gall fod anawsterau penodol i bobl hŷn sydd wedi ymddeol ac sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith

Mae derbynwyr budd-daliadau a ddisodlir gan Gredyd Cynhwysol yn sgorio gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd o ran rheoli arian o ddydd i ddydd. Dyma'r budd-daliadau dan sylw:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm;
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm;
- Cymhorthdal Incwm;
- Credyd Treth Plant;
- Credyd Treth Gwaith; a
- Budd-dal Tai.

Gwelir sgoriau ymddygiad y grŵp hwn yn Nhabl 19 yn yr atodiadau. Mae colofn ychwanegol yn dangos ffigurau pobl ddi-waith am eu bod nhw wedi'u nodi'n gynt yn yr adroddiad fel grŵp â sgoriau arbennig o isel, ac am fod ymchwil flaenorol yn awgrymu bod effaith negyddol diweithdra ar allu ariannol yn sylweddol ac nad yw i'w briodoli i'r gostyngiad mewn incwm yn unigme.³⁸ Er hynny, dylid nodi'r nifer isel ar gyfer pobl ddi-waith yng Nghymru (35 o bobl). Cymherir drwyddi draw â'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio.

³⁷ <https://www.fca.org.uk/static/documents/research/vulnerability-exposed-research.pdf>

³⁸ The impact of life events on Financial Capability: Evidence from the BHPS
<http://www.fsa.gov.uk/pubs/consumer-research/crpr79.pdf>

Yn y bau 'rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd' mae pobl ddi-waith a cheiswyr budd-daliadau ill dau gryn dipyn yn llai tebyg na chyfartaledd y bobl o oedran gweithio o ddweud eu bod yn llwyddo i dalu biliau ac ymrwymadau, yn cynilo'n gyson, neu o fod â chelc at y tymor byr. Er hynny, mae'r ddau grŵp ychydig yn fwy tebyg na chyfartaledd y bobl o oedran gweithio o ddweud eu bod yn gwybod eu balans hyd at o fewn £50, ac mae ganddynt lefelau isel o ddyled ansicredig.

Er hynny, mae'n werth nodi bod y sgoriau gwytnwch yn arbennig o isel ymysg pobl ddi-waith (9% o'i gymharu â 34% ymysg oedolion o oedran gweithio, er y dylid nodi mai isel yw'r nifer dan sylw) y mae'n ymddangos bod ganddynt orwel agosach o ran nodau a chynlluniau ariannol. Gwelwyd patrymau tebyg yn y Deyrnas Unedig.

Un her allweddol wrth gynllunio ymyriadau posibl yw gwahaniaethu rhwng pa anawsterau sy'n ganlyniad anochel i gael eich cyfyngu gan incwm isel a pha rai a allai gael eu lliniaru gan ymyriadau effeithiol. Mae'r ystyriaeth isod ar y Ffactorau Galluogrwydd Ariannol yn cynnig syniadau cychwynnol ynglŷn â hyn, ond mae'n debyg y bydd angen rhagor o waith er mwyn deall y materion hyn.

Fe allai Ffactorau Galluogrwydd Ariannol atal gwell rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd. O'u cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio, mae hyder wrth reoli arian a sgiliau a gwybodaeth yn is ymysg derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith (gweler Tabl 20 yn yr atodiadau i gael sgoriau llawn ffactorau galluogrwydd ariannol). Fe allai hyn adlewyrchu'r ffaith bod lled band pobl neu eu llwyth gwybyddol yn dirywio wrth fyw mewn cyni.³⁹

Gallai mynediad i gynhyrchion addas fod yn ataliad hefyd. Ceir defnydd cymharol uwch o ran talu am drydan ymlaen llaw a nifer cymharol isel o gyfrifon cynilo ymysg y ddau grŵp. Mae eu lefelau defnydd rhyngwyd yn is na chyfartaledd pobl o oedran gweithio ac mae'n drawiadol bod pobl ddi-waith yn llai tebyg o ddweud y byddent yn fodlon defnyddio'r rhyngwyd i fancio o ddydd i ddydd. Yn hytrach, maent yn debycach o gadw golwg ar incwm a gwariant ar bapur, o bosibl o ganlyniad i'r sgiliau is, yr wybodaeth is a'r defnydd digidol is sydd newydd gael eu trafod. Mae'r lefelau isel iawn o ymdeimlad o rym ymysg ceiswyr ac yn enwedig ymysg pobl ddi-waith yn drawiadol hefyd: mae'n bosibl bod cysylltiad rhwng y rhain a'u sgoriau is ar y peuoedd ymddygiad 'rheoli arian o ddydd i ddydd' a 'pharatoi at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli'.

Y goblygiadau ar gyfer ymyriadau

Mae symud at Gredyd Cynhwysol yn codi heriau ychwanegol i derbynwyr budd-daliadau yn sgil y newid i daliadau misol a'r gofyniad bod rhaid i'r derbynwyr dalu costau tai, yn hytrach na'u gweld yn cael eu talu'n uniongyrchol.

Ar sail dirnadaeth o Arolwg 2015, mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol wrthi'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i ddatblygu a chyflawni cymorth wrth gyllidebau a rheoli arian fel rhan o gyflwyno Credyd Cynhwysol. O gofio'r gyfran uwch sy'n defnyddio papur i gadw golwg ar eu hincwm a'u gwariant, gall fod lle i ddefnyddio mwy ar dechnoleg symudol neu apiau.

Tenaniaid tai cymdeithasol a rhentwyr preifat

Mae tenaniaid tai cymdeithasol yn grŵp arall a allai fod ar eu hennill yn sgil ymyriadau wedi'u targedu. Yn benodol gwelodd yr arolwg fod tenaniaid tai cymdeithasol, o'u cymharu â'r cyfartaledd ymysg pobl o oedran gweithio (a pherchen-feddianwyr):

- yn llai tebyg o gynilo'n gyson, a bod ganddynt lefelau isel o gynilion a/neu yswiriant bywyd;
- â gorwelion agosach, gan eu bod yn llai tebyg o fod wedi gosod nodau ariannol (a chynlluniau i gyrraedd y nodau hynny), ac yn llai tebyg o anghytuno ei bod 'yn well gen i fyw er mwyn heddiw na chynllunio ar gyfer yfory';
- â sgiliau a gwybodaeth is; a
- bod yn llai tebyg o fod wedi defnyddio'r rhyngwyd yn y saith diwrnod diwethaf neu'n fodlon defnyddio'r rhyngwyd ar gyfer bancio o ddydd i ddydd.

³⁹ Scarcity: The New Science of Having Less and How It Defines Our Lives. Sendhil Mullainathan, Eldar Shafir

Ar y llaw arall, mae pobl sy'n rhentu'n breifat yn grŵp gwahanol a phenodol:

- nad ydynt o'r farn bod cynilo ar gyfer diwrnod glawog yn bwysig iawn;
- sydd â llai o gelc cynilion ac yn llai tebyg o ddefnyddio credyd yn gall;
- sydd â lefelau is o hyder wrth reoli arian a gwneud penderfyniadau ar gynhyrchion/gwasanaethau ariannol na'r grŵp rhentu cymdeithasol ac yn debycach o ddweud bod eu sefyllfa ariannol yn peri pryder iddynt; ac
- yn yr un modd â thenantiaid tai cymdeithasol, sydd â lefelau isel o gynilion a/neu yswiriant bywyd.

Mae'n bosibl bod llawer o'r gwahaniaethau hyn yn gysylltiedig â phroffiliau oedran tenantiaid tai cymdeithasol a phobl sy'n rhentu'n breifat: yng Nghymru roedd 19% o denantiaid tai cymdeithasol yn 75+ oed, o'i gymharu â 12% o gyfanswm y boblogaeth o oedolion yng Nghymru; ac roedd 42% o'r rhentwyr preifat o dan 35 oed, o'i gymharu â 23% o gyfanswm y boblogaeth o oedolion yng Nghymru.

Gwelir amrediad llawn y sgoriau ymddygiad a'r sgoriau Ffactor Galluogrwydd Ariannol yn ôl deiliadaeth yn Nhabl 17 a Thabl 18 yn yr atodiadau.

Casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer ymyriadau

Cymysg yw'r darlun cyfan: mae'n ymddangos bod y mwyafrif o bobl Cymru'n rheoli eu harian yn dda o ddydd i ddydd ond bod llawer llai yn cynllunio'n dda at ddigwyddiadau bywyd. Mae'n ymddangos bod llawer o anawsterau'n gyffredin, ac nid wedi'u crynhoi'n benodol ymysg grwpiau o'r boblogaeth.

Mae helpu pobl i gadw golwg ar eu harian o ddydd i ddydd yn un o'r blociau adeiladu ar gyfer cynilo a pharatoi at y dyfodol. Ydy hyn yn awgrymu rôl ehangach ar gyfer FinTech, yn enwedig ymysg oedolion ifanc a'r boblogaeth o oedran gweithio sydd ag incwm canolog?

Mae'n ymddangos bod cymhellion gwahanol ynglŷn â chynilo'n gyson a chynilo llawer. Os ydyn ni am weld mwy o bobl yn cynilo mae angen inni gydnabod ei bod yn bosibl nad yw celc dros dro yn gymhelliant ac y dylem ganolbwyntio ar nodau. Gallai ei gwneud yn haws i bobl gynilo fod o gymorth hefyd ac mae'n bosibl bod yna rôl yn hyn o beth i FinTech.

At ei gilydd, mae 'canolbwyntio ar y dyfodol' yn beth cadarnhaol – mae angen inni ddeall sut i ddatblygu hyn o fewn cyfyngiadau incwm pobl a'u hamgylchiadau ariannol.

O ran y boblogaeth yn ei chrynsyth, mae'n ymddangos bod sgiliau a gwybodaeth yn llai o rwystr na chymhelliant, ond mae yna 'bocedi' o sgiliau gwael, y gall fod angen mynd i'r afael â hwy.

Bydd angen i ymyriadau llwyddiannus gael eu targedu'n dda a'u cloriannu'n drylwyr.

O ran grwpiau sy'n peri pryder penodol:

- mae angen inni gydnabod er enghraifft, fod grŵp cleientau Credyd Cynhwysol y dyfodol yn llai tebyg o fod â sgiliau a/neu hyder digidol. A oes angen adeiladu ar y mentrau presennol ynghylch cynhwysiant digidol ar draws Cymru?
- mae gan oedolion ifanc duedd i orddefnyddio credyd ac maen nhw heb sgiliau cyllidebu a hyder gydag arian. Mae agweddau at ddyled yn amrywio yn ôl carfannau oed. A oes angen ymyriadau sy'n cael eu cyflwyno gan negeswyr priodol?
- at ei gilydd mae gan bobl mewn tai cymdeithasol allu ariannol is. Mae hyn yn awgrymu rôl barhaus i ymyriadau drwy gyfrwng landlordiaid cymdeithasol. Canfyddiadau cychwynnol Arolwg 2015 sydd yn adroddiad hwn. Yn 2016 bwriadwn ddadansoddi data 2015 yn fanylach ar y cyd â ffynonellau data eraill. Mae croeso i awgrymiadau gan gyfranddeiliaid ac ymarferwyr am feysydd i'w hystyried. Yn benodol, mae lle i edrych ar y canlynol:
- rhagor o fanylion am bobl o oedran gweithio;
- gwahaniaethau rhwng cefn gwlad ac ardaloedd trefol;
- defnyddio technoleg a'i pherthynas ag ymddygiadau, agweddau a chydrrannau eraill galluogrwydd ariannol;
- i ba raddau y gall boddhad mewn bywyd a boddhad ar eich amgylchiadau ariannol gael eu hesbonio gan allu ariannol;
- a oes gormod o bwysau wedi'i roi ar bwysigrwydd cyllidebu. Yng nghyfweliadau Arolwg 2015 casglwyd manylion sylweddol ar sut mae'r ymatebwyr yn cadw golwg ar eu harian ac yn ei reoli o ddydd i ddydd. Ar sail hyn gallem ddymuno ystyried yn fanylach a yw dulliau cyllidebau penodol yn cael eu cysylltu'n arbennig â deilliannau gwell o ran amllder cynilo, symiau cynilion etc.; a
- dyled – mae rhagor y gallem ei ddysgu o ragor o ddadansoddi ar ddata 2015 ac fe allai hynny gydategu gwaith parhaus y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol i broffilio nodweddion y boblogaeth sydd mewn gormod o ddyled yn y Deyrnas Unedig.

Atodiad A – Canlyniadau tabledig grwpiau targed penodol

Mae'r adran hon yn cynnwys canlyniadau cryno tabledig y grwpiau targed penodol a drafodwyd yn gynharach.

Oedolion ifanc

Tabl 13 Ymddygiadau oedolion ifanc

Pawb yng Nghymru	18-24s	Oedran gweithio
Maint y Sampl	131	609
Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	52%	57%
Cymryd rheolaeth	46%	48%
Gwybod balans y cyfrif cyfredol hyd at o fewn £50	67%	60%
<i>Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant yn cael sgôr o 8 neu fwy allan o 10, lle mae 10 yn golygu da iawn</i>	43%	51%
<i>Llwyddo i dalu biliau heb anhawster</i>	51%	46%
Celc at y tymor byr	55%	56%
<i>Cynilo bob mis/bron bob mis</i>	57%	53%
<i>Gallent dalu bil o £300 o'r cynilion neu â'u harian eu hunain heb dorri nôl</i>	60%	63%
Defnyddio credyd yn gall	33%	41%
<i>Ddim yn cylchdroi balansau cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus</i>	75%	71%
<i>Dyled ansicredig⁴⁰ yn llai nag 1 mis o incwm y teulu</i>	61%	63%
Cynyddu incwm i'r eithaf	75%	84%
Cynllunio at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli	32%	43%
Nodau a Chynlluniau	61%	47%
<i>Nodau</i>	79%	61%
<i>Cynllun(iau) ar gyfer noda(au)</i>	43%	33%
Gwytnwch	18%	34%
<i>Cynilion yn 3+ mis o incwm y teulu</i>	21%	25%
<i>Yswiriant bywyd</i>	19%	47%
Paratoi at ymddeol	18%	47%
<i>Talu i mewn i bensiwn (gweithio) neu wedi talu i mewn i bensiwn yn flaenorol (os nad ydynt yn gweithio)</i>	18%	51%
<i>Gofal hirdymor - cynllun penodol/bras (pobl 50+ yn unig yn ateb)</i>	n/a	20%
Delio ag anhawster ariannol	84%	84%
<i>Llwyddo i dalu biliau yn faich (anghytuno)</i>	84%	82%
<i>Wedi syrthio ar ei hôl hi o ran biliau / taliadau (heb)</i>	84%	86%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud

⁴⁰ Mae'r gymhareb dyled i incwm wedi'i seilio ar amcangyfrif o ddyled ansicredig sy'n cynnwys benthyciadau myfyrwyr. Ond dim ond 62% o'r grŵp oedran hwn sydd mewn addysg neu sy'n raddedigion ar hyn o bryd, ac maent yn defnyddio mathau eraill o gredyd ansicredig.

Tabl 14 Ffactorau Galluogrwydd Ariannol pobl ifanc

Pawb yng Nghymru	18-24s	Oedran gweithio
Maint y Sampl	131	609
Sgiliau a gwybodaeth	64%	73%
Cyfrif balans ar ôl i log gael ei ychwanegu	58%	70%
Darllen balans ar gyfriflen banc	90%	88%
Deall chwyddiant a phŵer prynu	43%	62%
Agweddau at y dyfodol	31%	43%
Gwell gen i fyw er mwyn heddiw na chynllunio ar gyfer yfory (anghytuno)	52%	50%
Cynilo ar gyfer diwrnod glawog – pwysig iawn	24%	39%
Gosod arian o'r neilltu ar gyfer ymddeol – pwysig iawn	19%	39%
Hyder a hunan-ffeithiolrwydd	40%	44%
Hyder wrth reoli arian	41%	47%
Sefyllfa ariannol yn peri pryder (anghytuno)	32%	34%
Fydd dim byd a wnaif i yn gwneud llawer o wahaniaeth (anghytuno)	47%	52%
Cymryd cyfrifoldeb dros fy arian	55%	60%
Cadw golwg ar incwm a gwariant y teulu – pwysig iawn	46%	52%
Chwilio am fargeinion ac arian yn mynd ymhellach – pwysig iawn	41%	50%
Prynu ar fympwy yn aml (annhebyg i mi)	71%	80%
Rhy brysur i roi trefn ar faterion ariannol	55%	61%
Trafod arian yn agored gydag unrhyw un	81%	74%
Addasu eitemau nad ydynt yn hanfodol wrth i fywyd newid (tebyg iawn i mi)	35%	42%
Hwylustod a hygyrchedd	66%	67%
Hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion / gwasanaethau ariannol	30%	41%
Defnyddio'r rhyngwrwyd	96%	94%
Bodlon defnyddio'r rhyngwrwyd at fancio o ddydd i ddydd	73%	67%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

Pobl hŷn sydd wedi ymddeol

Tabl 15 Pobl hŷn sydd wedi ymddeol – ymddygiadau

Pawb yng Nghymru	Pobl hŷn sydd wedi ymddeol	Oedran gweithio
Maint y Sampl	188	609
Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	64%	57%
Cymryd rheolaeth	66%	48%
Gwybod balans y cyfrif cyfredol hyd at o fewn £50	65%	60%
Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant yn cael sgôr o 8 neu fwy allan o 10, lle mae 10 yn golygu yn dda iawn	80%	51%
Llwyddo i dalu biliau heb anhawster	78%	46%
Celc at y tymor byr	60%	56%
Cynilo bob mis/bron bob mis	47%	53%
Gallent dalu bil o £300 o'r cynilion neu â'u harian eu hunain heb dorri nôl	80%	60%
Defnyddio credyd yn gall	62%	41%
Ddim yn cylchdroi balansau cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus	91%	71%
Dyled ansicredig ⁴¹ yn llai nag 1 mis o incwm y teulu	90%	63%
Cynyddu incwm i'r eithaf	68%	84%
Cynllunio at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli	28%	43%
Nodau a Chynlluniau	22%	47%
Nodau	23%	61%
Cynllun(iau) ar gyfer noda(au)	20%	33%
Gwytnwch	35%	34%
Cynilion yn 3+ mis o incwm y teulu	49%	25%
Yswiriant bywyd	42%	47%
Paratoi at ymddeol	28%	47%
Talu i mewn i bensiwn (gweithio) neu wedi talu i mewn i bensiwn yn flaenorol (os nad ydynt yn gweithio)	n/a	51%
Gofal hirdymor - cynllun penodol/bras (pobl 50+ yn unig yn ateb)	24%	20%
Delio ag anhawster ariannol	97%	84%
Llwyddo i dalu biliau yn faich (anghytuno)	97%	82%
Wedi syrthio ar ei hôl hi o ran biliau / taliadau (heb)	97%	86%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud

⁴¹ Mae'r gymhareb dyled i incwm wedi'i seilio ar amcangyfrif o ddyled ansicredig sy'n cynnwys benthyciadau myfyrwyr. Ond dim ond 62% o'r grŵp oedran hwn sydd mewn addysg neu sy'n raddedigion ar hyn o bryd, ac maent yn defnyddio mathau eraill o gredyd ansicredig.

Tabl 16 Pobl hŷn sydd wedi ymddeol – ffactorau galluogrwydd ariannol

Pawb yng Nghymru	Pobl hŷn sydd wedi ymddeol	Oedran gweithio
Maint y Sampl	188	609
Sgiliau a gwybodaeth	70%	73%
Cyfrif balans ar ôl i log gael ei ychwanegu	65%	70%
Darllen balans ar gyfriflen banc	78%	88%
Deall chwyddiant a phŵer prynu	67%	62%
Agweddau at y dyfodol	52%	43%
Gwell gen i fyw er mwyn heddiw na chynllunio ar gyfer yfory (anghytuno)	56%	50%
Cynilo ar gyfer diwrnod glawog – pwysig iawn	53%	39%
Gosod arian o'r neilltu ar gyfer ymddeol – pwysig iawn	47%	39%
Hyder a hunan-ffeithiolrwydd	59%	44%
Hyder wrth reoli arian	73%	47%
Sefyllfa ariannol yn peri pryder (anghytuno)	69%	34%
Fydd dim byd a wnaif i yn gwneud llawer o wahaniaeth (anghytuno)	37%	52%
Cymryd cyfrifoldeb dros fy arian	61%	60%
Cadw golwg ar incwm a gwariant y teulu – pwysig iawn	58%	52%
Chwilio am fargeinion ac arian yn mynd ymhellach – pwysig iawn	46%	50%
Prynu ar fympwy yn aml (annhebyg i mi)	88%	80%
Rhy brysur i roi trefn ar faterion ariannol	77%	61%
Trafod arian yn agored gydag unrhyw un	71%	74%
Addasu eitemau nad ydynt yn hanfodol wrth i fywyd newid (tebyg iawn i mi)	27%	42%
Hwylustod a hygyrchedd	56%	67%
Hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion / gwasanaethau ariannol	61%	41%
Defnyddio'r rhyngrwyd	66%	94%
Bodlon defnyddio'r rhyngrwyd at fancio o ddydd i ddydd	43%	67%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

Deiliadaeth tai

Tabl 17 Deiliadaeth tai – ymddygiadau

Pawb yng Nghymru	Perchen yn llwyr	Perchen â morgais	Rhentu preifat	Rhentu cymdeithasol
Maint y Sampl	220	221	118	154
Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	66%	59%	56%	52%
Cymryd rheolaeth	64%	46%	51%	58%
<i>Gwybod balans y cyfrif cyfredol hyd at o fewn £50</i>	59%	53%	72%	75%
<i>Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant yn cael sgôr o 8 neu fwy allan o 10, lle mae 10 yn golygu yn dda iawn</i>	74%	50%	51%	66%
<i>Llwyddo i dalu biliau heb anhawster</i>	77%	44%	45%	52%
Celc at y tymor byr	63%	57%	54%	42%
<i>Cynilo bob mis/bron bob mis</i>	51%	57%	51%	28%
<i>Gallent dalu bil o £300 o'r cynilion neu â'u harian eu hunain heb dorri nôl</i>	80%	61%	63%	64%
Defnyddio credyd yn gall	61%	42%	36%	45%
<i>Ddim yn cylchdroi balansau cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus</i>	88%	68%	58%	87%
<i>Dyled ansicredig⁴² yn llai nag 1 mis o incwm y teulu</i>	86%	58%	60%	82%
Cynyddu incwm i'r eithaf	76%	90%	82%	64%
Cynllunio at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli	35%	50%	35%	26%
Nodau a Chynlluniau	28%	47%	50%	27%
<i>Nodau</i>	32%	60%	62%	36%
<i>Cynllun(iau) ar gyfer noda(au)</i>	23%	33%	36%	18%
Gwytnwch	41%	43%	21%	22%
<i>Cynilion yn 3+ mis o incwm y teulu</i>	62%	24%	19%	16%
<i>Yswiriant bywyd</i>	45%	68%	28%	31%
Paratoi at ymddeol	35%	59%	33%	29%
<i>Talu i mewn i bensiwn (gweithio) neu wedi talu i mewn i bensiwn yn flaenorol (os nad ydynt yn gweithio)</i>	48%	67%	41%	36%
<i>Gofal hirdymor - cynllun penodol/bras (pobl 50+ yn unig yn ateb)</i>	27%	20%	13%	18%
Delio ag anhawster ariannol	94%	85%	82%	88%
<i>Llwyddo i dalu biliau yn faich (anghytuno)</i>	93%	83%	79%	89%
<i>Wedi syrthio ar ei hôl hi o ran biliau / taliadau (heb)</i>	95%	88%	85%	86%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

⁴² Mae'r gymhareb dyled i incwm wedi'i seilio ar amcangyfrif o ddyled ansicredig sy'n cynnwys benthyciadau myfyrwyr. Ond dim ond 62% o'r grŵp oedran hwn sydd mewn addysg neu sy'n raddedigion ar hyn o bryd, ac maent yn defnyddio mathau eraill o gredyd ansicredig.

Tabl 18 Deiliadaeth tai – ffactorau galluogrwydd ariannol

Pawb yng Nghymru	Perchen yn llwyr	Perchen â morgais	Rhentu preifat	Rhentu cymdeithasol
Maint y Sampl	220	221	118	154
Sgiliau a gwybodaeth	76%	79%	72%	56%
Cyfrif balans ar ôl i log gael ei ychwanegu	72%	76%	69%	50%
Darllen balans ar gyfriflen banc	85%	91%	86%	71%
Deall chwyddiant a phŵer prynu	70%	71%	60%	46%
Agweddau at y dyfodol	55%	46%	42%	39%
Gwell gen i fyw er mwyn heddiw na chynllunio ar gyfer yfory (anghytuno)	60%	52%	51%	38%
Cynilo ar gyfer diwrnod glawog – pwysig iawn	54%	41%	36%	46%
Gosod arian o'r neilltu ar gyfer ymddeol – pwysig iawn	50%	45%	39%	34%
Hyder a hunan-efeithiolrwydd	62%	43%	41%	46%
Hyder wrth reoli arian	73%	46%	46%	56%
Sefyllfa ariannol yn peri pryder (anghytuno)	68%	28%	31%	50%
Fydd dim byd a wnaif i yn gwneud llawer o wahaniaeth(anghytuno)	46%	57%	44%	33%
Cymryd cyfrifoldeb dros fy arian	62%	61%	65%	55%
Cadw golwg ar incwm a gwariant y teulu – pwysig iawn	56%	50%	59%	55%
Chwilio am fargeinion ac arian yn mynd ymhellach – pwysig iawn	47%	51%	60%	44%
Prynu ar fympwy yn aml (annhebyg i mi)	84%	87%	77%	79%
Rhy brysur i roi trefn ar faterion ariannol	73%	59%	70%	69%
Trafod arian yn agored gydag unrhyw un	74%	75%	80%	57%
Addasu eitemau nad ydynt yn hanfodol wrth i fywyd newid (tebyg iawn i mi)	35%	42%	41%	29%
Hwylustod a hygyrchedd	62%	69%	66%	48%
Hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion / gwasanaethau ariannol	59%	41%	40%	51%
Defnyddio'r rhyngwrwyd	80%	95%	87%	60%
Bodlon defnyddio'r rhyngwrwyd at fancio o ddydd i ddydd	48%	71%	73%	35%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith

Tabl 19 Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith – ymddygiadau

Pawb yng Nghymru	Pobl ddi-waith	Pobl ar fudd-daliadau a drosir yn Gredyd Cynhwysol	Oedran gweithio
Maint y Sampl	35*	189	609
Rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	39%	53%	57%
Cymryd rheolaeth	34%	48%	48%
<i>Gwybod balans y cyfrif cyfredol hyd at o fewn £50</i>	68%	67%	60%
<i>Ymagwedd at gadw golwg ar incwm a gwariant yn cael sgôr o 8 neu fwy allan o 10, lle mae 10 yn golygu yn dda iawn</i>	44%	55%	51%
<i>Llwyddo i dalu biliau heb anhawster</i>	19%	34%	46%
Celc at y tymor byr	31%	45%	56%
<i>Cynilo bob mis/bron bob mis</i>	23%	39%	53%
<i>Gallent dalu bil o £300 o'r cynilion neu â'u harian eu hunain heb dorri nôl</i>	46%	55%	63%
Defnyddio credyd yn gall	33%	39%	41%
<i>Ddim yn cylchdroi balansau cardiau credyd nac yn defnyddio credyd byrdymor costus</i>	87%	66%	71%
<i>Dyled ansicredig⁴³ yn llai nag 1 mis o incwm y teulu</i>	70%	69%	63%
Cynyddu incwm i'r eithaf	59%	81%	84%
Cynllunio at ddigwyddiadau bywyd a'u rheoli	8%	32%	43%
Nodau a Chynlluniau	14%	35%	47%
<i>Nodau</i>	17%	48%	61%
<i>Cynllun(iau) ar gyfer noda(au)</i>	10%	21%	33%
Gwytnwch	9%	29%	34%
<i>Cynilion yn 3+ mis o incwm y teulu</i>	14%	18%	25%
<i>Yswiriant bywyd</i>	5%	41%	47%
Paratoi at ymddeol	3%	31%	47%
<i>Talu i mewn i bensiwn (gweithio) neu wedi talu i mewn i bensiwn yn flaenorol (os nad ydynt yn gweithio)</i>	3%	35%	51%
<i>Gofal hirdymor - cynllun penodol/bras (pobl 50+ yn unig yn ateb)</i>	0%	18%	20%
Delio ag anhawster ariannol	69%	79%	84%
<i>Llwyddo i dalu biliau yn faich (anghytuno)</i>	63%	79%	82%
<i>Wedi syrthio ar ei hôl hi o ran biliau / taliadau (heb)</i>	76%	78%	86%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

* gofal, nifer fach

⁴³ Mae'r gymhareb dyled i incwm wedi'i seilio ar amcangyfrif o ddyled ansicredig sy'n cynnwys benthyciadau myfyrwyr. Ond dim ond 62% o'r grŵp oedran hwn sydd mewn addysg neu sy'n raddedigion ar hyn o bryd, ac maent yn defnyddio mathau eraill o gredyd ansicredig.

Tabl 20 Derbynwyr budd-daliadau a phobl ddi-waith – ffactorau galluogrwydd ariannol

	Pobl ddi-waith	Pobl ar fudd-daliadau a drosir yn Gredyd Cynhwysol	Oedran gweithio
Maint y Sampl	35*	189	609
Sgiliau a gwybodaeth	51%	65%	73%
Cyfrif balans ar ôl i log gael ei ychwanegu	46%	61%	70%
Darllen balans ar gyfriflen banc	74%	81%	88%
Deall chwyddiant a phŵer prynu	32%	55%	62%
Agweddau at y dyfodol	32%	39%	43%
Gwell gen i fyw er mwyn heddiw na chynllunio ar gyfer yfory (anghytuno)	44%	42%	50%
Cynilo ar gyfer diwrnod glawog – pwysig iawn	40%	40%	39%
Gosod arian o'r neilltu ar gyfer ymddeol – pwysig iawn	13%	36%	39%
Hyder a hunan-ffeithiolrwydd	27%	35%	44%
Hyder wrth reoli arian	43%	40%	47%
Sefyllfa ariannol yn peri pryder (anghytuno)	16%	32%	34%
Fydd dim byd a wnaif i yn gwneud llawer o wahaniaeth (anghytuno)	22%	34%	52%
Cymryd cyfrifoldeb dros fy arian	59%	62%	60%
Cadw golwg ar incwm a gwariant y teulu – pwysig iawn	39%	55%	52%
Chwilio am fargeinion ac arian yn mynd ymhellach – pwysig iawn	59%	56%	50%
Prynu ar fympwy yn aml (annhebyg i mi)	82%	84%	80%
Rhy brysur i roi trefn ar faterion ariannol	45%	64%	61%
Trafod arian yn agored gydag unrhyw un	75%	72%	74%
Addasu eitemau nad ydynt yn hanfodol wrth i fywyd newid (tebyg iawn i mi)	55%	40%	42%
Hwylustod a hygyrchedd	49%	58%	67%
Hyderus wrth wneud penderfyniadau ar gynhyrchion / gwasanaethau ariannol	30%	39%	41%
Defnyddio'r rhyngrwyd	74%	82%	94%
Bodlon defnyddio'r rhyngrwyd at fancio o ddydd i ddydd	42%	52%	67%

Rhai canrannau wedi'u hailseilio i hepgor gwerthoedd anghymwys, coll, megis ddim yn gwybod a gwrthod dweud.

* gofal, nifer fach

Nodiadau

